8042-25

# City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gorchudd Llawr

C00/5289/3

## Llawlyfr y Cymhwyster

**Fersiwn 1.0 Awst 2026**



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Diben y cymhwyster** | **4** |
| **Nodau ac amcanion y cymhwyster** | **5** |
| **Strwythur y cymhwyster** | **6** |
| **Darparu'r cymhwyster** | **15** |
| **Crynodeb o'r asesiad** | **18** |
| **Manylebau Asesu** | **21** |
| **Allwedd cynnwys** | **23** |
| **Cynnwys yr uned** | **25** |
| Uned 301: Deall arferion adeiladu yng Nghymru | 26 |
| Uned 302: Gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru | 34 |
| Uned 303: Cynllunio a gwerthuso gwaith yn y sector adeiladu yng Nghymru | 40 |
| Uned 304: Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle | 44 |
| Uned 305: Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol | 48 |
| Uned 306: Symud, trin neu storio adnoddau | 51 |
| Uned 345: Gwybodaeth graidd am orchuddio lloriau | 58 |
| Uned 346: Cydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith | 63 |
| Uned 347: Datblygu cysylltiadau â chwsmeriaid | 69 |
| Uned 348: Asesu a gwerthuso amgylchiadau ar gyfer gorchuddion lloriau | 74 |
| Uned 349: Asesu a pharatoi arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau | 79 |
| Uned 350: Gosod allan yn barod ar gyfer gosod gorchuddion lloriau | 86 |
| Uned 351: Paratoi a gosod haenau gwaelodol ar gyfer gorchuddion lloriau | 91 |
| Uned 352: Gosod gorchuddion lloriau tecstilau | 96 |
| Uned 353: Gosod gorchuddion lloriau gwydn | 103 |
| Uned 354: Uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau | 110 |
| Uned 355: Gosod gorchuddion lloriau pren | 115 |

## Gwybodaeth am y fersiwn

| Fersiwn a dyddiad cyhoeddi | Newidiadau |
|---|---|
| F1.0 Awst 2026 | Dogfen wreiddiol |

## Diben y cymhwyster

| | Disgrifiad |
|---|---|
| I bwy mae'r cymhwyster? | Mae City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gorchudd Llawr wedi'i lunio i alluogi dysgwyr sy'n dysgu yn y gwaith i ddatblygu a gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o orchuddio lloriau a sut mae hyn yn cael ei gyflawni yng Nghymru.<br><br>Fe'i hanelir at ddysgwyr sydd un ai wedi ennill y cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2), neu a fydd yn cwblhau'r dysgu a'r asesiadau yn y cymhwyster Craidd mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) yn ystod eu prentisiaeth. Bydd y cymhwyster hwn, ynghyd â chadarnhad y cyflogwr, yn golygu y bydd modd profi bod dysgwyr yn alwedigaethol hyfedr.<br><br>Mae'n addas ar gyfer:<br>• dysgwyr 16 oed a hŷn sy'n gweithio yn y sector adeiladu ar hyn o bryd<br>• dysgwyr sydd un ai wedi pasio'r cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu neu a fydd yn cwblhau'r asesiadau a'r dysgu Sylfaen yn ystod eu prentisiaeth. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i gynllunio a chyflawni prosiectau gorchuddio lloriau, yn unol â safonau galwedigaethol a gydnabyddir yn genedlaethol, cyn adolygu a gwerthuso ansawdd allbynnau'r prosiect.<br><br>Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o sut mae cyflawni eu rolau fel rhan o dimau cynhyrchiol ac mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.<br><br>Gellir defnyddio'r cymhwyster ledled y DU a'i nod yw datblygu gallu dysgwyr i fodloni gofynion y sector adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys gweithio gyda'r stoc adeiladu draddodiadol, newydd a chyn-1919, a deall technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. |
| Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer dilyniant? | Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddysgwyr allu gweithio ym maes gorchuddio lloriau ledled y DU. |

| | |
|---|---|
| Gyda phwy ydym ni wedi datblygu'r cymhwyster? | Mae'r cynnwys wedi cael ei ddatblygu gan y Consortiwm[1] ar y cyd â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, canolfannau a chyflogwyr ar draws y sector. |

## Nodau ac amcanion y cymhwyster

Mae'r Cymhwyster Adeiladu (Lefel 3) – Gorchudd Llawr yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:

- eu gallu i gynllunio prosiectau gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio'r sgiliau priodol ar gyfer gorchuddio lloriau mewn amgylchedd gwaith
- eu gallu i adolygu a gwerthuso ansawdd eu gwaith gorchuddio lloriau gorffenedig yn effeithiol mewn amgylchedd gwaith
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r offer, y technegau, y deunyddiau a'r technolegau a ddefnyddir yn y grefft gorchuddio lloriau
- sgiliau cyflogadwyedd a'u gallu i'w defnyddio mewn amgylchedd gwaith
- eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel sy'n briodol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- gwybodaeth a dealltwriaeth alwedigaethol o orchuddio lloriau
- perfformiad galwedigaethol mewn gorchuddio lloriau.

[1] Mae'r consortiwm yn cynnwys City & Guilds Limited ac EAL a fu'n gweithio ar y cyd i ddatblygu a darparu'r holl gymwysterau yn y gyfres Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu

# Strwythur y cymhwyster

## Rheolau cyfuno

Er mwyn ennill y cymhwyster **City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gorchudd Llawr – llwybr Tecstilau/Gwydn**, mae'n rhaid i ddysgwyr gyflawni **pob un** o'r tair uned ar ddeg sy'n orfodol **a** thair uned Tecstilau/Gwydn.

Er mwyn ennill y cymhwyster **City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gorchudd Llawr – llwybr Pren/Coed**, rhaid i ddysgwyr gyflawni **pob un** o'r tair uned ar ddeg sy'n orfodol **ac** un uned o'r llwybr Pren/Coed.

**Er mwyn ennill gradd pasio neu uwch yn y pedwar dull asesu, mae'r Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) ar gyfer pob llwybr drwy'r cymhwyster fel a ganlyn:**

**Tecstilau/Gwydn: 762 GLH**

**Pren/Coed: 637 GLH**

| Rhif yr uned | Teitl yr uned | GLH |
|---|---|---|
| **Unedau gorfodol ar gyfer y ddau lwybr:** | | |
| 301 | Deall arferion adeiladu yng Nghymru | 40 |
| 302 | Gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru | 40 |
| 303 | Cynllunio a gwerthuso gwaith yn y sector adeiladu yng Nghymru | 35 |
| 304 | Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle | 21 |
| 305 | Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol | 14 |
| 306 | Symud, trin neu storio adnoddau | 30 |
| 345[2] | Gwybodaeth graidd am orchuddio lloriau | 50 |
| 346 | Cydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith | 25 |
| 347 | Datblygu cysylltiadau â chwsmeriaid | 30 |
| 348 | Asesu a gwerthuso amgylchiadau ar gyfer gorchuddion lloriau | 20 |
| 349 | Asesu a pharatoi arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau | 85 |

[2] Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd gyffredinol gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun unedau 346-355.

| | | |
|---|---|---|
| 350 | Gosod allan yn barod ar gyfer gosod gorchuddion lloriau | 55 |
| 351 | Paratoi a gosod haenau gwaelodol ar gyfer gorchuddion lloriau | 35 |

**Llwybr Tecstilau/Gwydn** – Rhaid i ddysgwyr hefyd gyflawni tair uned Tecstilau/Gwydn:

| | | |
|---|---|---|
| 352 | Gosod gorchuddion lloriau tecstilau | 90 |
| 353 | Gosod gorchuddion lloriau gwydn | 90 |
| 354 | Uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau | 35 |
| | Pob math o asesiad | 67 |
| | Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (gan gynnwys unedau craidd/gorfodol ac asesiad): | **762** |

**Llwybr Pren/Coed** – rhaid i ddysgwyr hefyd gyflawni **un** uned yn y llwybr Pren/Coed:

| | | |
|---|---|---|
| 355 | Gosod gorchuddion lloriau pren | 90 |
| | Pob math o asesiad | 67 |
| | Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (gan gynnwys unedau craidd/gorfodol ac asesiad): | **637** |

## Oriau Dysgu Dan Arweiniad a'r Cyfanswm Oriau Cymhwyso

Mae'r Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o ddysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sy'n ofynnol i ddarparu'r uned, a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sy'n cael eu rhestru ar wahân) a'r oriau sy'n cael eu treulio'n paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Caiff credyd ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla sy'n hafal i werth y cyfanswm oriau cymhwyso wedi'i rannu â 10.

Mae manylion y cyfanswm oriau cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u nodi isod.

| Cymhwyster | TQT | Credydau |
|---|---|---|
| City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gorchudd Llawr | 734 | 73 |

## Gofynion ar y ganolfan

Bydd angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau wrth ddesg ac wyneb yn wyneb.

I ennill cymeradwyaeth fel canolfan, mae'n rhaid i'r sefydliad allu bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo canolfannau. Mae'r gofynion cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster hwn ar gael yn ein dogfennau Safonau Sicrhau Ansawdd ar wefan City & Guilds.

Cynghorir darpar ganolfannau i gael cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster, fel bo'n briodol, cyn dechrau darparu'r cymhwyster.

Mae City & Guilds yn anelu at ddod i benderfyniad ynghylch cymeradwyo canolfannau a chymwysterau cyn pen 30 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais cyflawn, ac mae pedwar canlyniad posibl:

- rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan a'r cymhwyster
- rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar ddatblygu cynllun gweithredu
- peidio â rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan na'r cymhwyster hyd nes y datblygir cynllun gweithredu
- peidio â rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan na'r cymhwyster.

Ystyrir bod y ganolfan a'r cymwysterau wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn ysgrifennu at y ganolfan yn cadarnhau'r statws, a dim cyn hynny.

Bydd gofyn i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn, a bodloni'r gofynion penodol ar ganolfannau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, o ran cymhwysedd staff darparu ac asesu. Bydd y gofynion hyn yn cael eu gwirio a'u monitro fel rhan o'r broses o gymeradwyo cymwysterau a'r gwaith parhaus o fonitro'r cymhwyster hwn.

## Cofrestru, cyhoeddi canlyniadau ac ardystio

Ewch i wefan City & Guilds i gael manylion ynghylch y prosesau, yr amserlenni a'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ac ardystio cymwysterau.

## Sicrhau ansawdd

### Sicrhau ansawdd mewnol

Mae'r broses sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer y cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau ansawdd gweithdrefnau asesu, gan gynnwys safoni arferion asesu gwahanol aseswyr yn y ganolfan
- sicrhau bod y ffigurau bras ar gyfer Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) ar gyfer y Prosiect Ymarferol yn cael eu bodloni'n gyson, gyda gwahaniaethau sylweddol neu barhaus yn cael eu harchwilio
- safoni'n fewnol y graddau a roddwyd i ddysgwyr ar gyfer y Cwestiynau ar Lafar a'r Prosiect Ymarferol.

Rhaid i bob canolfan a gymeradwyir i ddarparu'r cymhwyster hwn fod â phrosesau sicrhau ansawdd mewnol (SAM) trylwyr ar waith. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol:

- yn darparu cywirdeb a chysondeb rhwng aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu
- cynnal dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a pharhau i fodloni'r meini prawf cymeradwyo.

Bydd tystiolaeth sicrhau ansawdd mewnol yn destun craffu fel rhan o waith sicrhau ansawdd allanol City & Guilds. Bydd disgwyl i ganolfannau gadw tystiolaeth yn unol â gofynion llawlyfr canolfannau City & Guilds a dylid ei chadw am o leiaf dair blynedd.

### Sicrhawyr ansawdd mewnol

Rhaid i'r ganolfan roi manylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol (SAM) i City & Guilds, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith. Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i sicrhawyr ansawdd mewnol hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol wneud y canlynol:

- paratoi am, a chymryd rhan yng nghyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds, fel cynefino, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) / digwyddiadau hyfforddi a safoni, a sicrhau bod unrhyw gynlluniau gweithredu / gwella personol yn cael eu cwblhau, o fewn amserlen wedi'i chytuno ac i'r safonau sy'n ofynnol
- bod â lefel sylfaenol o brofiad galwedigaethol a thystiolaeth o hynny ar ffurf cymhwyster sy'n ymwneud ag adeiladu neu brawf o brofiad/cymhwysedd yn y sector sydd gyfwerth â lefel y cymhwyster o leiaf, er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u rôl fel Sicrhawr Ansawdd Mewnol. Mae City & Guilds yn sicrhau ansawdd y dystiolaeth hon

- yn gweithio tuag at (wedi cofrestru cyn cyflawni unrhyw weithgaredd sicrhau ansawdd), neu wedi cyflawni'r unedau canlynol:
    - Deall Egwyddorion ac Arferion Sicrhau Ansawdd Asesu yn Fewnol*
    - Sicrhau Ansawdd Asesu yn Fewnol*

  * Derbynnir yr Hen Gymwysterau (D32/D33/D34, A1 a V1)
- gallu dangos tystiolaeth bod eu gwybodaeth am y grefft/diwydiant perthnasol yn gyfredol.  Gall y dystiolaeth gynnwys, er enghraifft un ai ddarllen cyhoeddiadau'r diwydiant, ymgymryd â chyrsiau dysgu, mynychu digwyddiadau rhwydweithio perthnasol i'r cymhwyster hwn, a/neu fynychu digwyddiadau'r diwydiant.

Mae gan Sicrhawyr Ansawdd Mewnol rôl hollbwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau safoni asesiadau sy'n cael eu graddio gan ganolfannau. Dylent weithio gydag aseswyr i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn bob amser ac i sicrhau bod penderfyniadau asesu gan wahanol aseswyr yn gyson, yn deg ac yn ddibynadwy. Bydd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- cwrdd ag aseswyr (yn unigol a gyda'i gilydd) drwy gydol cyfnod y cymhwyster i drafod materion sy'n gysylltiedig â safoni a sicrhau ansawdd, a rhoi cymorth ac arweiniad lle bo angen
- arsylwi aseswyr a rhoi adborth iddynt i'w helpu i wella eu technegau asesu
- samplu tystiolaeth ar draws gwahanol grwpiau i sicrhau bod y safonau priodol wedi cael eu bodloni
- trefnu i draws-raddio asesiadau er mwyn cymharu canlyniadau a chytuno ar feincnodau yn unol â hyfforddiant City & Guilds.

Bydd City & Guilds yn rhoi canllawiau i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol canolfannau drwy gydol y broses o reoli newid.

## Sicrhau ansawdd allanol

**Mae'r Cwestiynau ar Lafar yn cael eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n allanol.**
**Mae'r Prosiect Ymarferol yn cael ei asesu'n fewnol a'i ddilysu'n allanol.**
**Mae'r Drafodaeth Broffesiynol yn cael ei hasesu'n allanol a'i dilysu'n allanol.**

Bydd ein tîm o Sicrhawyr Ansawdd Allanol, sy'n fedrus yn dechnegol, yn dilysu penderfyniadau asesu canolfannau a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol yn allanol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n ddilys ac yn ddibynadwy. Mae ein Sicrhawyr Ansawdd Allanol yn dilyn prosesau dilysu cadarn. Maent yn monitro systemau asesu, ymarferion a deilliannau canolfannau yn unol â gofynion rheoleiddiol. Mae eu strategaethau samplo'n seiliedig ar 'CAMERA' (sicrhau sampl gynrychiadol o ymgeiswyr/dysgwyr, aseswyr, dulliau asesu, tystiolaeth, cofnodion a safleoedd asesu).

Bydd City & Guilds yn:

- cynnal ymarferion sicrhau ansawdd angenrheidiol ar gyfer yr asesiad hwn, sy'n gallu cynnwys arsylwi uniongyrchol, samplu asesiadau ac adborth gan ddysgwyr
- cael trefn apelio gadarn yn ei lle ar gyfer dysgwyr.

## Sicrhawyr ansawdd allanol

Mae Sicrhawyr Ansawdd Allanol yn mynd drwy drefn gynefino, ac yn cael eu hyfforddi a'u safoni i sicrhau cysondeb. Maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar newidiadau i gymwysterau a bydd eu gwaith yn cael ei fonitro a'i samplo'n barhaus. Mae gwiriadau manwl yn sicrhau bod gan y swyddogion yr wybodaeth angenrheidiol, a'u bod wedi ennill cymwysterau Asesu Hyfforddiant a Sicrhau Ansawdd (TAQA) ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Allanol. Bydd yr holl Sicrhawyr Ansawdd Allanol ar gyfer Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu yn cael eu briffio ar yr adolygiad o'r sector, gan gynnwys y gyfres newydd o gymwysterau.

Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Allanol:

- fod yn atebol i City & Guilds
- bod wedi ennill dyfarniad TAQA neu'n gweithio tuag at hynny, wedi cyflawni V2 neu D35 ac yn meddu ar dystiolaeth DPP o ymarfer yn unol â Safonau TAQA
- deall y broses asesu a defnyddio'r broses raddio yn gyson
- bod heb wrthdaro rhwng buddiannau â'r ganolfan asesu, er mwyn cynnal gwrthrychedd
- bod â'r ddealltwriaeth dechnegol/alwedigaethol berthnasol ofynnol yn y cymhwyster/cymwysterau/uned(au) y mae eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol
- gallu rhoi cyngor ac arweiniad i ganolfannau ar weithdrefnau asesu a sicrhau ansawdd mewnol.

Bydd City & Guilds yn:

- cynnal ymarferion sicrhau ansawdd angenrheidiol ar gyfer y broses asesu, sy'n gallu cynnwys arsylwi uniongyrchol, samplu asesiadau, ac adborth gan ddysgwyr
- cael trefn apelio gadarn yn ei lle ar gyfer dysgwyr.

# Rolau, cyfrifoldebau a sicrhau ansawdd

## Proffil asesydd mewnol

Rhaid i'r ganolfan roi manylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt fod yn gyfrifol am asesu i City & Guilds, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith. Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i aseswyr hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Rhaid i aseswyr fod yn gweithio tuag at (wedi cofrestru cyn gwneud unrhyw asesiadau) neu fod wedi cyflawni'r unedau canlynol:

- Uned: Deall egwyddorion ac arferion asesu*
- Uned: Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith*
- Uned: Asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau galwedigaethol*

**a** dal i ymarfer i'r safon honno.

* Derbynnir yr Hen Gymwysterau (D32/D33/D34, A1 a V1).

Rhaid i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys. Ceir tystiolaeth sy'n ategu hyn drwy i'r asesydd feddu ar NVQ perthnasol neu gymhwyster cyfwerth* hyd at drothwy cymhwysedd

galwedigaethol llawn y grefft a/neu drwy fod wedi cofrestru â chorff sy'n berthnasol i'r grefft neu feddu ar gydnabyddiaeth briodol sy'n dangos yn glir bod yr asesydd yn gymwys yn y grefft.

*Dylai aseswyr, a gymhwysodd cyn i gymwysterau NVQ gael eu datblygu, ddarparu tystiolaeth o sut maent yn gymwys yn alwedigaethol (er enghraifft, ar ffurf CV neu Gofnod DPP ynghyd ag unrhyw eirdaon perthnasol).

## Gofynion ar gyfer aseswyr mewnol

Rhaid i aseswyr mewnol wneud y canlynol:

- cynnal a chofnodi asesiadau yn unol â threfniadau rheoleiddiol a City & Guilds, gan gynnwys:
  - ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais bob amser wrth gynnal yr asesiad
  - graddio'r asesiadau yn unol â'r meini prawf graddio
- cynnal dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau asesu
- cynnal a chofnodi DPP (i'w gyflwyno ar gais)
- deall gofynion y sector, y cymhwyster a'r gofynion asesu
- bod yn alwedigaethol gymwys
- cynhyrchu gwaith papur clir, cywir a chryno a chofnodion perthnasol (ysgrifenedig ac electronig) a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u gweinyddu'n unol â gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu
- gwneud penderfyniadau asesu cadarn
- trin gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion GDPR
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds a chymryd rhan ynddynt – fel digwyddiadau cynefino, hyfforddiant/DPP a digwyddiadau safoni, a sicrhau bod unrhyw gynlluniau gweithredu/gwella personol yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt ac i'r safonau gofynnol
- rhoi gwybod i'r Sicrhawr Ansawdd Mewnol am unrhyw amheuaeth o gamymarfer neu gamweinyddu, gan gynnwys camymddwyn academaidd
- datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau (er enghraifft, rhwng yr asesydd a'r dysgwr)
- darparu mynediad at wybodaeth a chofnodion pan wneir cais amdanynt
- cwblhau a chyflwyno pob adroddiad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

## Tyst arbenigol (i ddarparu tystiolaeth ategol ar gyfer y Prosiect Ymarferol)

Gall tystion arbenigol sy'n gweithio gyda'r dysgwr yn rheolaidd gael eu henwebu a'u cadarnhau gyda'r darparwr dysgu/y ganolfan i gefnogi'r gwaith o gasglu tystiolaeth tra bydd dysgwyr yn ymgymryd â'r Prosiect Ymarferol. Nid yw tystion arbenigol yn gwneud penderfyniadau/dyfarniadau asesu; eu rôl yw darparu gwybodaeth, cyd-destun a safbwynt profiadol ar y gwaith a gwblhawyd gan y dysgwr fel rhan o dasg(au) penodol eu prosiect.

Er mwyn cael ei gadarnhau fel tyst arbenigol, rhaid i gynrychiolydd/cynrychiolwyr y cyflogwr:

- fod yn alwedigaethol gymwys – meddu ar gymhwyster perthnasol, gallu dangos profiad perthnasol yn y diwydiant/y maes crefft a/neu fod yn aelod o gorff crefft perthnasol a/neu fod wedi'i gydnabod ganddo
- deall gofynion y sector, y cymhwyster a'r gofynion asesu.

## Proffil asesydd allanol (ar gyfer y Drafodaeth Broffesiynol)

Bydd aseswyr ar gyfer yr asesiad o'r Drafodaeth Broffesiynol yn cael eu penodi gan City & Guilds a byddant yn cynnal yr asesiad ar ran City & Guilds. Byddant yn annibynnol ar y ganolfan. Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i aseswyr hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds.

Mae'n rhaid i aseswyr fod wedi ennill neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster asesu cydnabyddedig perthnasol **a** pharhau i ymarfer i'r safon honno. Dylai Aseswyr sydd â chymwysterau cynharach (A1, D32 neu D33) fod â thystiolaeth DPP hyd at y safonau diweddaraf.

Rhaid i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys. Ceir tystiolaeth sy'n ategu hyn drwy i'r asesydd feddu ar NVQ* perthnasol ar gyfer trothwy cymhwysedd galwedigaethol llawn y grefft a/neu fod wedi cofrestru â chorff sy'n berthnasol i'r grefft neu wedi cael cydnabyddiaeth briodol sy'n dangos yn glir bod yr asesydd yn gymwys yn ei grefft.

*Dylai aseswyr, a gymhwysodd cyn i NVQs gael eu datblygu, ddarparu tystiolaeth o sut maent yn gymwys yn alwedigaethol (er enghraifft, drwy CV ynghyd ag unrhyw eirdaon perthnasol).

Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i aseswyr hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Mae hyn er mwyn sicrhau bod asesiadau yn ddibynadwy dros amser.

## Gofynion aseswyr allanol (ar gyfer y Drafodaeth Broffesiynol)

Rhaid i aseswyr allanol:

- baratoi'r Drafodaeth Broffesiynol yn llawn gan ddefnyddio tystiolaeth y prosiect
- cynnal a chofnodi asesiad y Drafodaeth Broffesiynol yn unol â threfniadau City & Guilds a threfniadau rheoleiddiol, gan gynnwys:
    - ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais bob amser wrth gynnal yr asesiad ar ran City & Guilds
    - cyrraedd y ganolfan o leiaf 45 munud cyn yr asesiad ac aros yn y ganolfan drwy gydol yr asesiad (wrth gynnal asesiad wyneb yn wyneb)
    - marcio'r asesiadau, yn unol â'r meini prawf graddio
- cynnal gwybodaeth drylwyr o bolisïau a gweithdrefnau asesu
- cynnal a chofnodi DPP (i'w gyflwyno ar gais)
- deall gofynion y sector, y brentisiaeth a'r asesiad
- bod yn gyfarwydd â'r technolegau diweddaraf a ddefnyddir yn y diwydiant
- bod yn alwedigaethol gymwys
- cynhyrchu gwaith papur clir, cywir a chryno a chofnodion perthnasol (ysgrifenedig ac electronig) a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u gweinyddu'n unol â gweithdrefnau City & Guilds
- gwneud penderfyniadau asesu cadarn
- trin gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion GDPR
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds a chymryd rhan ynddynt – fel digwyddiadau cynefino, hyfforddiant/DPP a digwyddiadau safoni, a sicrhau bod unrhyw gynlluniau gweithredu/gwella personol yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt ac i'r safonau gofynnol
- rhoi gwybod i City & Guilds am unrhyw amheuaeth o gamymarfer neu gamweinyddu, gan gynnwys camymddwyn academaidd
- datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau (megis rhwng yr asesydd a'r prentis)

- darparu mynediad at wybodaeth a chofnodion pan wneir cais amdanynt
- cwblhau a chyflwyno pob adroddiad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Mae’n rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth bod eu gwybodaeth am y grefft/diwydiant perthnasol yn gyfredol. Gall y dystiolaeth gynnwys er enghraifft darllen cyhoeddiadau’r maes crefft, cwblhau cyrsiau dysgu, mynychu digwyddiadau rhwydweithio perthnasol i’r cymhwyster, a/neu fynychu digwyddiadau’r diwydiant.

### Swyddogion cyswllt/penodeion allanol

Swyddogion cyswllt/penodeion yw’r termau a ddefnyddir gan City & Guilds am unigolion a benodir gan City & Guilds neu EAL i ymgymryd â rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft sicrhawyr ansawdd allanol ac aseswyr allanol.

Mae City & Guilds wedi pennu meini prawf i sicrhau bod gan yr holl swyddogion cyswllt/penodeion yr wybodaeth, y profiad a'r sgiliau galwedigaethol iawn i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod yr holl swyddogion cyswllt/penodeion sy’n ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd yng nghyswllt cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a phenderfyniadau asesu wedi cael eu hyfforddi, bod ganddynt y cymwysterau priodol a’u bod yn gymwys yn alwedigaethol. Mae’n rhaid mynychu digwyddiadau safoni a hyfforddiant.

Caiff perfformiad yr holl swyddogion cyswllt/penodeion ei reoli gan staff City & Guilds. Os bydd pryderon yn cael eu nodi gyda golwg ar unigolyn, bydd pob un o bartneriaid City & Guilds yn cymryd camau cywiro a allai gynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall materion ansawdd o ran perfformiad arwain at derfynu contract City & Guilds â’r aelod cyswllt/penodai.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodeion dwyieithog yn cael eu recriwtio i fodloni anghenion canolfannau cyfrwng Cymraeg a dysgwyr sy’n siarad Cymraeg. Bydd lefel y gwaith sicrhau ansawdd yn gyson ar draws y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

## Y Cyd-destun yng Nghymru

O ran unigolion nad ydynt wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant, polisi a chyd-destun Cymru yn fuddiol i gefnogi eu rolau.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

Mae disgwyl i ganolfannau helpu eu staff i wneud yn siŵr bod ganddynt yr wybodaeth a'r cymwyseddau diweddaraf yn y maes galwedigaethol a'u bod yn gwybod am yr arferion gorau o ran darparu, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd, a bod hyn yn ystyried unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol neu genedlaethol.

# Darparu’r cymhwyster

## Gofynion mynediad i ddysgwyr

Nid yw City & Guilds yn gosod unrhyw ofynion mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn. Rhaid i ganolfannau wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr y potensial a'r cyfle i lwyddo i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

Os yw’n cael ei gwblhau fel rhan o brentisiaeth, yna mae’n rhaid bodloni gofynion penodol fel rhan o’r fframwaith prentisiaethau.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy Walled Garden. Mae mwy o wybodaeth ar wefan City & Guilds.

### Cyfyngiadau oedran

Nid oes modd i City & Guilds dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed, gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer unigolion o dan 16.

## Asesiad cychwynnol a chynefino

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn i'w raglen ddechrau er mwyn nodi'r canlynol:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- y cymorth a'r arweiniad a allai fod eu hangen arno pan fydd yn gweithio tuag at ei gymhwyster
- unrhyw ddysgu neu asesiad y mae eisoes wedi’i gwblhau sy’n berthnasol i’r cymhwyster (ee crefft berthnasol o’r Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2))
- y math a’r lefel briodol o gymhwyster.

Rydym yn argymell bod canolfannau'n darparu rhaglen gynefino er mwyn i'r dysgwr allu deall yn llawn beth yw gofynion y cymhwyster, beth yw ei gyfrifoldebau fel dysgwr a beth yw cyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

## Deunyddiau ategol

Mae’r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut mae cael gafael arno |
|---|---|
| Pecyn Asesu | https://www.skillsforwales.wales/cy/cymwysterau |
| Pecyn Cwestiynau ar Lafar | https://www.skillsforwales.wales/cy/cymwysterau |
| Prawf ar-sgrîn enghreifftiol:<br>8042-401 (Saesneg)<br>8042-451 (Cymraeg) | Llwyfan e-volve, y gellir ei archebu drwy Walled Garden |

## Sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i ganolfannau gael strategaeth ysgrifenedig ar gyfer sicrhau ansawdd yn fewnol.

Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol:

- yn darparu cywirdeb a chysondeb rhwng aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu
- yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.

## Cymedroli'r trefniadau asesu mewnol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith er mwyn gwirio dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a wneir gan staff canolfannau, fel sy'n briodol ar gyfer y cymhwyster hwn.

Bydd y Cwestiynau ar Lafar a'r Prosiect Ymarferol yn cael eu hasesu'n fewnol, eu monitro ar sail risg a'u samplo gan aseswyr ansawdd allanol i sicrhau bod penderfyniadau asesu'r ganolfan yn ddilys ac yn gyson. Swyddogion cyswllt asesu sy'n meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol fydd yn cynnal y gwaith sicrhau ansawdd. Bydd City & Guilds yn darparu adborth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob achos o samplo at ddibenion sicrhau ansawdd.

Bydd City & Guilds yn ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio sylweddol, neu feysydd pryder a nodir yn ystod gwaith monitro allanol. Mae'n bosibl y bydd camau gwella priodol a/neu gosbau yn cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r gwaith yma. Mewn rhai achosion, gall ymchwiliadau arwain at ddadgofrestru'r ganolfan/canolfannau dan sylw.

### Apeliadau mewnol

Rhaid i ganolfannau gael proses fewnol ar waith i ddysgwyr apelio yn erbyn y radd neu'r marc a roddir i asesiadau mewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau y mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau sydd wedi'u hasesu'n fewnol, oherwydd bydd angen y rhain arnynt er mwyn penderfynu a ydynt am apelio neu beidio.

### Camymarfer

Cyfeiriwch at nodiadau cyfarwyddyd City & Guilds *Rheoli achosion lle ceir amheuaeth o gamymarfer mewn arholiadau ac asesiadau*. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ganfod a rhoi gwybod am gamymarfer gan ddysgwyr a/neu staff canolfannau a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr a chanolfannau ac mae'n egluro cyfrifoldebau staff y ganolfan i roi gwybod am gamymarfer go iawn neu amheuaeth o gamymarfer. Mae'r ddogfen hon ar gael i'r canolfannau ar wefan City & Guilds.

Ceir enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr isod (noder nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cyd-gynllwynio ag eraill, copïo gwaith dysgwr arall (gan gynnwys defnyddio TGCh i'w helpu i gopïo), neu ganiatáu i rywun gopïo ei waith
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- ffugio datganiadau dilysrwydd yng nghyswllt asesiadau
- esgus bod yn rhywun arall.

Gallai'r gweithredoedd hyn gyfrif fel camymarfer, a bydd cosb (ee anghymhwyso o'r asesiad) amdanynt.

## Trefniadau mynediad

Mae trefniadau mynediad yn addasiadau sy'n caniatáu i unigolion ag anghenion ychwanegol ac anafiadau dros dro gael mynediad at yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Mae'n rhaid gwneud y trefniadau hyn cyn cynnal yr asesiad.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu cael mynediad at holl ofynion y cymhwyster, a hynny ar ddechrau'r rhaglen.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y dogfennau: *Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ)* a *Trefniadau mynediad - pryd a sut mae angen cyflwyno ceisiadau i City & Guilds*. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan City & Guilds

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd wedi cael salwch dros dro, anaf neu anhwylder ar adeg yr asesiad.

Dylai ceisiadau ar gyfer naill ai trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig gael eu cyflwyno i City & Guilds gan swyddog arholiadau'r ganolfan. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch fersiwn gyfredol y ddogfen JCQ, Arweiniad i'r broses ar gyfer ystyriaeth arbennig. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds

## Crynodeb o'r asesiad

Mae **City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gorchudd Llawr** yn cael ei asesu gan ddefnyddio pedwar dull asesu:

| Elfen asesu | Math o asesiad | Dull asesu | Pwysoliad (Cyfraniad at radd gyffredinol y cymhwyster) |
|---|---|---|---|
| 8042-701 | Asesiad ar-sgrîn | Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol | 0% |
| 8042-705<br><br>8042-706 | Cwestiynau ar Lafar – Tecstilau/Gwydn<br><br>Cwestiynau llafar – Pren/Coed | Wedi'u gosod yn allanol, eu hasesu'n fewnol, a'u dilysu'n allanol | 0% |
| 8042-707<br><br>8042-708 | Prosiect Ymarferol – Tecstilau/Gwydn<br><br>Prosiect Ymarferol – Pren/Coed | Wedi'i osod yn fewnol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol | 75% |
| 8042-709 | Trafodaeth Broffesiynol | Wedi'i gosod yn allanol, ei marcio'n allanol, a'i dilysu'n allanol | 25% |

Mae'r asesiadau Cwestiynau ar Lafar ac Ar-sgrîn yn cael graddau pasio/methu ac mae'r Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth Broffesiynol yn cael graddau pasio/teilyngdod/rhagoriaeth.

Gallwch lwytho pecyn asesu i lawr sy'n disgrifio gofynion yr asesiad oddi ar wefan Sgiliau i Gymru.

Mae manylion ynglŷn â sut mae pob asesiad yn ymdrin â chynnwys y cymhwyster ym manylebau asesu'r Pecyn Asesu.

## Graddio'r cymhwyster

Y graddau ar gyfer y cymhwyster hwn yw **pasio, teilyngdod, rhagoriaeth.** Os bydd dysgwr yn methu unrhyw un o'r pedwar asesiad ar gyfer ei lwybr, ni fydd yn ennill y cymhwyster.

Mae manylion ynghylch sut gellir ennill y graddau hyn ar gael yn y Pecyn Asesu.

## Amseru a chamau'r asesu

Rhaid dilyn y canlynol wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid ymgymryd â phob uned ar gyfer arbenigedd y dysgwr, a rhaid cwblhau ac asesu pob un o'r gofynion perthnasol yn ystod y cyfnod y mae'r dysgwr wedi cofrestru.

Gellir asesu yn ôl y galw; rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr wedi ymgymryd â phob dysgu gofynnol a'u bod wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer ymgymryd â phob asesiad.

**Rhaid i Gadarnhad y Cyflogwr fod wedi'i gwblhau cyn dechrau'r Drafodaeth Broffesiynol.**

**Rhaid i ddysgwyr fod wedi cwblhau'r asesiadau ar gyfer y Cwestiynau ar Lafar a'r Prosiect Ymarferol, a'u pasio, cyn ymgymryd ag asesiad y Drafodaeth Broffesiynol.**

**Gall y Cwestiynau ar Lafar ddigwydd cyn neu ar ôl y Prosiect Ymarferol neu ochr yn ochr â'r prosiect.**

## Rhyddhau canlyniadau

### Asesiad ar-sgrîn

Mae'r prawf Ar-sgrîn yn cael ei awto-farcio a bydd y ganolfan yn derbyn y canlyniadau ar yr un diwrnod ag y cwblheir yr asesiad. Bydd proses rhyddhau canlyniadau'n cael ei dilyn gan City & Guilds pan fydd fersiynau newydd o asesiadau'n cael eu rhyddhau.

### Cwestiynau ar Lafar

Mae'r Cwestiynau ar Lafar yn cael eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Mae gradd dros dro yn cael ei dyfarnu yn dilyn canllawiau asesu mewnol a ddarperir yn y Pecyn Cwestiynau ar Lafar ar gyfer yr Asesydd, ac yna'n cael ei chyflwyno i City & Guilds drwy Walled Garden.

Rhoddir gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

### Prosiect Ymarferol

Mae Prosiectau Ymarferol yn cael eu marcio'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Mae marciau dros dro a roddir yn dilyn asesu mewnol yn cael eu trosi'n raddau gan ddefnyddio'r tablau marcio a graddio a ddarperir yn y Pecyn Asesu. Yna cyflwynir graddau dros dro i City & Guilds drwy Walled Garden.

Rhoddir gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

### Trafodaeth Broffesiynol

Mae'r Drafodaeth Broffesiynol yn cael ei marcio'n allanol a'i dilysu'n allanol. Bydd yr asesydd allanol yn defnyddio'r tablau marcio a graddio a ddarperir yn y Pecyn Asesu i farcio a rhoi

gradd. Bydd y radd derfynol ar gyfer yr asesiad hwn yn cael ei rhyddhau gan City & Guilds cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl cynnal y Drafodaeth Broffesiynol.

### Canlyniadau cyffredinol y cymhwyster

Rhaid rhoi graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer y Cwestiynau ar Lafar a'r Prosiect Ymarferol cyn pen wythnos i gwblhau pob asesiad. Dylid rhoi canllawiau ar natur dros dro'r canlyniadau hyn, gan gydnabod y bydd eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n fewnol ac yn allanol a gradd derfynol ar gyfer y cymhwyster yn cael ei rhoi gan City & Guilds.

Rhoddir gwybod i ganolfannau beth yw graddau terfynol y cymhwyster ar ôl cwblhau'r gwaith sicrhau ansawdd allanol. Rhoddir yr hysbysiad hwn cyn pen wyth wythnos ar ôl i'r ganolfan gyflwyno canlyniadau'r dysgwyr ar gyfer y Cwestiynau ar Lafar a'r Prosiect Ymarferol (ar ôl cwblhau'r Asesiad Ar-sgrîn a'r Drafodaeth Broffesiynol yn llwyddiannus).

Bydd y graddau terfynol ar gyfer y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth Broffesiynol yn cael eu cyfuno ar sail pwysoliad yr asesiad, yn unol â chanllawiau ar gyfuno graddau yn y Pecyn Asesu, a gradd gyffredinol am y cymhwyster yn cael ei dyfarnu a'i chyhoeddi gan City & Guilds.

## Ailgyflwyno/Ailsefyll asesiad

Os nad yw'r dysgwr yn llwyddo i gwblhau'r Asesiad Ar-sgrîn, y Prosiect Ymarferol, neu'r Drafodaeth Broffesiynol yn llwyddiannus, mae ganddo hawl i ailsefyll/ailgyflwyno.

Mae arweiniad ar y gweithdrefnau ailsefyll/ailgyflwyno ar gyfer pob asesiad, yn ogystal ag arweiniad o ran y Cwestiynau ar Lafar ar gael yn y Pecyn Asesu a'r Pecyn Cwestiynau ar Lafar i Aseswyr ar gyfer y cymhwyster hwn y gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan City & Guilds.

Os oes angen i ddysgwr ailsefyll neu ailgyflwyno unrhyw un o'r asesiadau, rhaid rhoi adborth a chymorth priodol fel bo'r dysgwr yn gallu gwneud hynny o fewn amserlen briodol.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio neu raddio gofynnol, dylai'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i roi sylw i'r meini prawf a fethwyd a rhoi cyfleoedd ar gyfer gwella a'i gefnogi i baratoi i gyrraedd y safon ofynnol.

Os nad yw dysgwyr yn hapus â chanlyniadau eu hasesiad, dylent gael gwybod am eu hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr. Nid oes cyfyngiad ar faint o weithiau y gall dysgwr ailsefyll neu ailgyflwyno.

Am fwy o fanylion am sut i ailgyflwyno / ailsefyll unrhyw asesiadau penodol, dylid darllen yr wybodaeth yn y Pecyn Asesu.

# Manylebau Asesu

## Asesiad ar-sgrîn

Gellir gweld manyleb y prawf ar gyfer yr Asesiad Ar-sgrîn yn y Pecyn Asesu.

## Asesiad Cwestiynau ar Lafar

Mae'r fanyleb ar gyfer yr asesiad Cwestiynau ar Lafar ar gael yn y Pecyn Asesu a'r Pecyn Cwestiynau ar Lafar i Aseswyr.

## Prosiect Ymarferol

Cyfeiriwch at yr adran Prosiect Ymarferol yn y Pecyn Asesu.

## Trafodaeth Broffesiynol

Yr asesydd allanol fydd yn cynnal y Drafodaeth Broffesiynol. Bydd gofyn i'r ganolfan gytuno ar ddyddiad ar gyfer y drafodaeth gyda City & Guilds a sicrhau bod amgylchedd asesu addas yn cael ei ddarparu ar gyfer y drafodaeth hon. Rhaid cwblhau Cadarnhad y Cyflogwr cyn trefnu'r drafodaeth gyda City & Guilds.

Mae cynnwys yr uned sy'n cael sylw yn y Drafodaeth Broffesiynol wedi'i amlinellu yn y tabl isod.

| **Y dysgwr yn myfyrio ynghylch y prosiect ymarferol:** Bydd yn defnyddio tystiolaeth y prosiect i ategu'r drafodaeth broffesiynol. Beth wnaeth y dysgwr, a pham ei fod wedi gwneud hynny. | |
|---|---|
| **Myfyrio ynghylch gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol a sgiliau'r canlynol:** | **Cyfeirnod yr Uned** |
| 1.1 Trefnu'r adnoddau sydd eu hangen<br>1.2 Gosod meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg/tasgau<br>1.3 Gwneud gwaith cynllunio effeithiol<br>1.4 Rhesymu pam mai'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yw'r un mwyaf priodol<br>1.5 Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff y gwaith<br>1.6 Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg a nodi'r camau i'w cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau<br>1.7 Nodi gofynion trosglwyddo'r gwaith<br><br>2.1 Adolygu pa mor briodol yw'r meini prawf llwyddo a osodwyd<br>2.2 Gwerthuso'r defnydd a'r dewis o adnoddau<br>2.3 Gwerthuso'r allbwn gorffenedig<br>2.4 Gwerthuso ei berfformiad ei hun<br>2.5 Adolygu cyflawni'r amserlenni<br>2.6 Gwerthuso'r broses drosglwyddo | 303 – DD1, DD2 |
| 2.1 Sut i ddatblygu a chynnal perthynas waith gynhyrchiol | 302 – DD2 |

| | |
|---|---|
| 2.2 Sut mae cyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyflogwyr a chydweithwyr ac â rhanddeiliaid eraill drwy gydol prosiectau amgylchedd adeiledig | |
| 4.1 Dulliau adeiladu cyn 1919<br>4.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern<br>4.3 Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21ain ganrif ar gyfer y grefft a ddewiswyd | 301 – DD4 |

# Allwedd cynnwys

Nod yr wybodaeth isod yw ceisio rhoi golwg gyffredinol ar strwythur cynnwys yr uned a sut mae'r meysydd cynnwys yn gysylltiedig â'i gilydd yn ogystal â gwybodaeth am ddarparu ac asesu'r cymhwyster.

## Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio rhannau o sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd. Maent yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu (hynny yw, beth mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu). Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae'r deilliant dysgu hwn yn ymwneud â'r gwahanol gyrff a sefydliadau crefft yn y sector adeiladu.

***Deilliant dysgu:***
*1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau masnach o fewn y sector adeiladu*

## Meini Prawf

Mae'r meini prawf asesu yn rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w trafod. Y meini prawf hyn fydd yn cael eu hasesu yng nghyswllt y deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae maen prawf asesu 1.5 yn ymwneud â rôl y CITB yn y sector adeiladu, sydd wedi'i ysgrifennu ac a asesir yn erbyn y deilliant dysgu.

***Meini Prawf***

*1.5 Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a'i rôl yn y sector adeiladu*

## Ystod

Mae'r ystod yn cynnwys gwybodaeth am yr ehangder sy'n ofynnol ar gyfer maen prawf asesu penodol, er enghraifft, hyfforddi, cofrestru ac ati. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n bosibl y bydd enghreifftiau eraill a allai ddod o dan y maes pwnc hwn, ond, mae'r rhai sydd wedi'u rhestru yn yr ystod yn allweddol ar gyfer darparu cynnwys yr uned – **mae'n rhaid cynnwys pob elfen sydd wedi'i rhestru yn yr ystod wrth ddarparu'r uned.**

***Ystod:*** *Hyfforddiant a DPP; cofrestru*

## Dyfnder y cynnwys

Mae dyfnder y cynnwys yn amlinellu pa mor fanwl y mae'n rhaid mynd drwy'r cynnwys. Mae hyn yn golygu bod modd canolbwyntio'r addysgu ar y lefel gywir er mwyn i'r dysgwr fod yn barod i gael ei asesu. Er enghraifft, mae 'dylai dysgwyr gydnabod y rhesymau' yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yn rhaid i'r dysgwyr ddeall 'sut' neu 'pam' yng nghyswllt yr ystod.

***Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)***

*1.5 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) o ran ei gymorth a'i gyllid ar gyfer hyfforddiant a DPP parhaus. Byddant yn deall y gofynion ar gyfer cofrestru cwmnïau a rhwydwaith o grwpiau hyfforddi ac ymgynghorwyr CITB ledled y wlad.*

Sylwer: Os yw'r adran Deilliannau Darparu (dyfnder y cynnwys) yn dweud Amherthnasol/Amh. neu os nad yw'n bodoli, mae hyn oherwydd natur hunanesboniadol y meini prawf sgiliau ymarferol cysylltiedig a/neu fod y gofynion darparu yn benodol i leoliadau dysgwyr unigol.

## Cynnwys yr uned

# Uned 301: Deall arferion adeiladu yng Nghymru

| GLH: | 40 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr archwilio a deall cwmpas eang a newidiol y sector adeiladu yng Nghymru o arferion cyn 1919 i ddatblygiadau yn y dyfodol. Bydd yn rhoi golwg gyffredinol ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru.

**Argymhellir bod yr uned hon yn cael ei chyflwyno cyn uned 302 Gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru.**

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu
- deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu
- gwybod am y newidiadau mewn pwysau a deunyddiau adeiladu dros amser
- gwybod am y newid mewn dulliau adeiladu dros amser
- deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Pam ddylwn i ymuno ag undeb?
- Beth yw ystyr gwahanol liwiau'r cardiau CSCS?
- Sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol i adeiladu?
- Beth mae economi gylchol yn ei olygu?
- Beth yw ystyr yr acronym Saesneg BREEAM?

## Deilliant dysgu

### 1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau masnach o fewn y sector adeiladu

## Meini Prawf

**1.1** Y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

**1.2** Rôl cyrff a sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

**1.3** Y cynlluniau cerdyn cymhwysedd yn y sector adeiladu a'r mathau o gardiau sydd ar gael

**1.4** Cofrestriad proffesiynol fel gweithiwr adeiladu proffesiynol

**1.5** Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a'i rôl yn y sector adeiladu
**Ystod:** hyfforddiant a DPP; cofrestru

### 2. Deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu

## Meini Prawf

2.1 Rhyngddibyniaethau rhwng crefftau
**Ystod:** y berthynas rhwng crefftau unigol a chrefftau eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd, o adeiladu o'r newydd i atgyweirio strwythurau traddodiadol

### 3. Gwybod am y newidiadau mewn pwysau a deunyddiau adeiladu dros amser

## Meini Prawf

3.1 Dulliau adeiladu cyn 1919
**Ystod:** pwysau (dylanwadau daearyddol, angen lleol); deunyddiau (ar gael yn rhanbarthol)

3.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 hyd at y cyfnod modern
**Ystod:** pwysau (cadwyn gyflenwi, galw o ran y diwydiant, poblogaeth); deunyddiau (safoni, arloesi)

**3.3** Adeiladu yn yr 21ain ganrif
**Ystod:** pwysau (newid yn yr hinsawdd, ôl troed carbon, argaeledd adnoddau); deunyddiau (calch, deunyddiau adeiladu naturiol, deunyddiau a gynhyrchwyd drwy ddulliau peirianyddol)

## 4. Gwybod am y newid mewn dulliau adeiladu dros amser

### Meini Prawf

4.1 Dulliau adeiladu cyn 1919
**Ystod:** deunyddiau; offer a thechnegau a ddefnyddiwyd cyn 1919

4.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern
**Ystod:** esblygiad dulliau a thechnegau adeiladu modern wedi'u llywio gan newidiadau mewn deunyddiau, offer a thechnegau

**4.3** Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21ain ganrif ar gyfer y grefft a ddewiswyd
**Ystod**: gweithgynhyrchu oddi ar y safle; cydrannau adeiladu parod; argraffu cydrannau adeiladu 3D; economi gylchol, dylunio cynaliadwy ac ôl-osod; inswleiddio; awyru; technolegau newydd a datblygol

## 5. Deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd

### Meini Prawf

**5.1** Cynaliadwyedd a rheoleiddio'r diwydiant

**5.2** Ystyriaethau ac egwyddorion ecolegol

**5.3** Dulliau cynaliadwy
**Ystod:** adfer gwres ac awyru; casglu dŵr glaw; celloedd tanwydd; paneli solar; pympiau gwresogi ac oeri; adeiladau di-garbon

**5.4** Gwaredu gwastraff ym maes adeiladu
**Ystod**: lleihau gwastraff; gwaredu gwastraff; egwyddorion ailgylchu ym maes crefft y dysgwr

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'r ystod lawn o sefydliadau crefft yn y sector adeiladu, gan gynnwys y corff crefft ymbarél – Build UK a'r ffederasiynau prif ffrwd mwy fel yr FMB (Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr) a'r NFB (Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr).

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall rôl sefydliadau crefft yn y sector adeiladu. Dylai hyn gynnwys rôl cryfhau, uno ac eirioli Build UK; y sicrwydd y mae aelodaeth cwmni o FMB neu NFB yn ei gynnig i gwsmeriaid, yn ogystal â'r cymorth busnes a'r rheolaeth ansawdd y maent yn ei gynnig i aelodau; a 'llais', hyfforddiant a chymorth technegol y mae cymdeithasau arbenigol yn ei gynnig i gontractwyr arbenigol.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o undebau a'u gwasanaethau/buddion.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y cynlluniau cardiau ar gyfer crefftau adeiladu, gan gynnwys y cerdyn CSCS gorfodol. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl darparwyr cardiau a gofynion cofrestru a chymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl cynlluniau person cymwys a'r cyfle i ddod yn aelodau o gyrff fel FMB neu NFB.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl darparwyr cardiau a gofynion cofrestru, a'r angen am gymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision cofrestriad proffesiynol gyda'r sefydliad adeiladu proffesiynol perthnasol, fel y potensial i ennill mwy, gwell rhagolygon gyrfa a chyflogadwyedd, statws uwch sy'n arwain at fwy o hunan-barch, cydnabyddiaeth ryngwladol o gymhwysedd ac ymrwymiad, tystiolaeth o arbenigedd, mwy o ddylanwad yn eu sefydliad a'u diwydiant eu hunain, a chydnabyddiaeth fel adlofnodwr.

**1.5** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) o ran ei gymorth a'i gyllid ar gyfer hyfforddiant a DPP parhaus. Bydd dysgwyr yn deall y gofynion ar gyfer cofrestru cwmnïau a rhwydwaith o grwpiau hyfforddi ac ymgynghorwyr CITB ledled y wlad.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall y berthynas rhwng eu dewis grefft a chrefftau eraill mewn gwahanol gyd-destunau, o adeiladu o'r newydd i atgyweirio strwythurau traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae crefftau unigol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhyngweithio. Bydd dysgwyr yn deall y ffics cyntaf a'r ail, er enghraifft, a'r mathau o broblemau sy'n gallu codi a sut mae eu lliniaru.

Gellir cysylltu rhyngddibyniaethau ag arferion gweithio diogel, cynllunio, math o eiddo/cyd-destun, a chysylltiadau gweithio da a chyfathrebu da. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwahanol grefftau'n rhyngweithio ar draws gwahanol sefyllfaoedd a sut mae'r rhyngweithio a'r rolau hyn wedi newid dros amser.

**Deilliant 3**

**3.1** Pwysau: Angen lleol (math o strwythurau a sut maent yn cael eu defnyddio, anghenion y diwydiant, anghenion diwylliannol), dylanwadau daearyddol – yr adnoddau sydd ar gael yn lleol, yr hinsawdd leol (ystyriaethau'r tywydd), dylanwadau lleol ar ddulliau ac arddulliau, natur unigryw leol.

Deunyddiau: Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion sylfaenol a'r defnydd a wneir o forterau, agregau, glynwyr, gorffeniadau swyddogaethol ac addurniadol mewnol ac allanol, cerrig, llechi, pren a phridd. Bydd y dysgwyr yn gwybod beth yw natur hydraidd calch a morterau daear.

Yn benodol i'r cyfnod hwn, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o gludo deunyddiau a'r gadwyn gyflenwi, manteision defnyddio deunyddiau sydd ar gael yn y rhanbarth yn lleol i safleoedd gwaith, a'r rhwystrau/problemau sy'n gysylltiedig â defnyddio deunyddiau nad ydynt yn lleol i safleoedd gwaith.

**3.2** Pwysau: Bydd dysgwyr yn gwybod am y datblygiadau mewn trafnidiaeth a ddylanwadodd ar y gadwyn gyflenwi ers y Chwyldro Diwydiannol.

Ymwybyddiaeth o ffynonellau deunyddiau adeiladu, gan gymharu deunyddiau a geir yn lleol â'r rheini a fewnforir i ranbarth.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod y dewis o ddeunyddiau yn aml yn adlewyrchu statws yr adeilad. Er enghraifft, roedd deunyddiau gwerth uwch yn aml yn cael eu defnyddio ar gyfer eglwysi, yn enwedig ar gyfer y ffenestri a nodweddion dylunio addurniadol eraill.

Deunyddiau: Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion sylfaenol slabiau concrit, brics a blociau, dur, gwydr, plastigau, deunyddiau cyfansawdd, safoni deunyddiau, a philenni atal lleithder. Y rôl y mae deunyddiau fel sment, gwydr a dur wedi'i chwarae yn y diwydiant ac yn eu crefft hwy eu hunain, a'r effaith y mae datblygiadau arloesol o ran deunyddiau wedi'i chael ar raddfa a chyflymder gwaith adeiladu gan gynnwys cost-effeithiolrwydd a chadernid. Bydd dysgwyr yn deall pam fod pilenni atal lleithder (DPC, DPM) wedi'u cynnwys mewn adeiladau ar ôl 1919.

**3.3** Pwysau: Bydd dysgwyr yn gwybod am y pwysau cynyddol o du'r newid yn yr hinsawdd ac ôl troed carbon y diwydiant adeiladu. Mae angen dealltwriaeth o bwysigrwydd effeithlonrwydd ynni ac ynni corfforedig o ran cyrraedd y targed di-garbon. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r diwydiant adeiladu.

Deunyddiau: Bydd angen i ddysgwyr wybod priodweddau a defnydd calch (calchwaith, rendrau calch a morterau a phlastrau), deunyddiau adeiladu naturiol a deunyddiau a gynhyrchwyd drwy ddulliau peirianyddol (pren, pren wedi'i asetylu, brics a blociau wedi'u llunio/ail-lunio â pheiriant, concrit wedi'i falu ac agregau gwydr, brics a blociau wedi'u hawyru).

Bydd dysgwyr yn adnabod yr angen am gynaliadwyedd adeiladau traddodiadol a brodorol, deunyddiau adeiladu cynaliadwy, ynni corfforedig, dewis deunyddiau ac ansawdd, effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae cynaliadwyedd hefyd yn cynnwys ailddefnyddio adeiladau, yn hytrach na'u dymchwel ac adeiladu rhai newydd, yn ogystal â gwella perfformiad thermol adeiladau modern sydd eisoes yn bodoli a rhai traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi gweithgynhyrchu oddi ar y safle, adeiladau modiwlaidd, cydrannau adeiladu parod, technolegau adeiladu digidol.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ddulliau traddodiadol o dirfesur a dylunio adeiladau, yn ogystal â gwaith adeiladu modern gan gynnwys meddalwedd dylunio digidol, offer clyfar, technolegau ac apiau, dronau, roboteg, BIM, CAD, modelu 3D, ac efelychiadau.

Bydd gan ddysgwyr wybodaeth am feddalwedd sy'n gysylltiedig â 2D a 3D. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod offer sydd wedi'u galluogi'n glyfar a manteision eu defnyddio mewn adeiladu o'u cymharu â dulliau traddodiadol/presennol.

Bydd dysgwyr yn gallu gweld ble a sut gellir defnyddio technolegau, apiau, dronau a roboteg ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, a manteision a rhwystrau eu defnyddio.

Bydd gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol am y cysyniad o argraffu 3D gan gynnwys ei ddefnydd, ei fanteision a'i gyfyngiadau o ran cynllunio, dylunio, modelu ac adeiladu.

**Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod y dulliau adeiladu nodweddiadol ar gyfer adeiladau a godwyd cyn 1919, a dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod angen ystyried nodweddion penodol wrth osod lloriau mewn adeiladau a godwyd cyn 1919 oherwydd y dulliau adeiladu a'r deunyddiau cyffredin a oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd, gan gynnwys lloriau pren solet neu grog a lefelau isloriau afreolaidd. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw goblygiadau gosod gorchuddion lloriau mewn adeiladau sydd â statws hanesyddol neu restredig mewn perthynas â Cadw.

Bydd dysgwyr yn gwybod mai amrywiaeth gyfyngedig o loriau tecstilau ac anhydraidd oedd ar gael mewn gwahanol ffurfiau, gan gynnwys carpedi wedi'u gwehyddu, carpedi gwe lydan, rygiau dwyreiniol wedi'u clymu â llaw, carpedi pob ochr, oelcloth, brethyn llawr, linoliwm, parquet.

**4.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu nodweddiadol ar gyfer adeiladau ar ôl 1919, a dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod llai o gymhlethdodau'n codi wrth osod lloriau tecstilau ac anhydraidd mewn adeiladau a godwyd ar ôl 1919 o gymharu â mewn eiddo hŷn, oherwydd bod dulliau adeiladu mwy safonol wedi'u defnyddio.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae datblygiadau modern ym maes gweithgynhyrchu gorchuddion lloriau wedi arwain at amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau llawr finyl a charped (polypropylen, neilon, polyester) ar gael, gan symud i ffwrdd o ddeunyddiau naturiol (fel gwlân neu bren), i ddefnyddio deunyddiau synthetig (fel teils thermoplastig, lloriau clustog, linoliwm). Bydd dysgwyr yn gwybod bod amrywiaeth ehangach o batrymau, dyluniadau a lledau, gan gynnwys patrwm pren wedi'i argraffu a'r offer a ddefnyddir i osod deunyddiau llawr, ar gael, gan gynnwys:

- offer gosod tecstilau: morthwyl a hoelion byr, stribed hoelion byr, offer ymestyn, gwellaif/cyllell garped, offer mesur
- offer gosod anhydraidd: cyllyll, gwelleifiau, pren mesur a sialc, rholer/gordd, brwsh past/taenwr glud, rholer sêm.

**4.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu newydd ar gyfer adeiladau'r 21ain ganrif. Dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis. Bydd dysgwyr yn gwybod am y technolegau newydd/datblygol yn eu crefft. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddatblygiadau newydd yn eu crefft – er enghraifft, drwy sefydliadau proffesiynol, cyrff y diwydiant a chymdeithasau crefft, erthyglau, y wasg grefftau, DPP ffurfiol, gwybodaeth gwneuthurwyr ac ati.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o raglenni adeiladu, tirfesur a dylunio modern gan gynnwys BIM, CAD, modelu 3D, efelychu a dronau, yn ogystal â dulliau traddodiadol o dirfesur a dylunio adeiladau fel sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Bydd dysgwyr yn deall dulliau dylunio ac adeiladu modiwlaidd ar gyfer eu crefft.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth mae'r termau canlynol yn ei olygu o ran eu crefft: yr economi gylchol, dylunio cynaliadwy ac ôl-osod, inswleiddio, rheoli lleithder, awyru.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod gosod carpedi a finyl wedi dod yn fwy effeithlon, manwl a glân oherwydd gwell deunyddiau, gwell adlynion a dulliau gosod, ac offer modern sydd wedi'u dylunio ar gyfer diogelwch, cyflymder a chanlyniadau proffesiynol, gan gynnwys:

- deunyddiau tecstilau:
    - carped gwe lydan

- teils carped/carped modiwlaidd
  - carpedi eco-gyfeillgar
  - cyfansoddion organig anweddol isel (VOC) a charpedi gwrthficrobaidd
- offer gosod
- deunyddiau anhydraidd:
  - teilsen finyl moethus (LVT)/planc (LVP)
  - finyl dalennog
  - llawr craidd deunyddiau cyfansawdd plastig a charreg (SPC)
  - deunyddiau cyfansawdd plastig a choed (WPC)
  - teils finyl hunan-adlynol
  - sgrîd resin epocsi
- deunyddiau pren:
  - laminiadau
  - byrddau wedi'u peiriannu
- offer ar gyfer:
  - paratoi
  - profi
  - torri
  - ffitio
  - uno
  - gosod
  - gorffen.

**Deilliant 5**

**5.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am nodweddion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Diogelu'r Amgylchedd, PAS 2030 a PAS 2035, y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, y Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd, y Ddeddf Rheoli Llygredd. Bydd y dysgwr yn gwybod gwerth delweddu thermol mewn arferion adeiladu sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac yn deall codau arferion da BREEAM a Passivhaus.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw hanfodion ôl-osod yr ystod lawn o stoc adeiladu mewn modd cyfrifol, gan gynnwys traddodiadol a modern.

Bydd dysgwyr yn gwybod y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 a'r cosbau am dorri'r gyfraith (ee tarfu ar glwydfa ystlumod neu nythfa o fadfallod).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall dyluniad prosiectau adeiladu helpu gydag effeithlonrwydd ynni a'r ddolen gyswllt i gynnwys cartrefi clyfar a thechnolegau clyfar, fel synwyryddion a rheolyddion.

**5.2** Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ystyriaethau ac egwyddorion ecolegol ac yn gwybod sut mae hyn yn berthnasol i adeiladu ac i'r amgylchedd adeiledig. Bydd gan ddysgwyr werthfawrogiad sylfaenol o gynefinoedd mewn perygl, ardaloedd o orlifdiroedd, gwrthbwyso bioamrywiaeth a'r prif rywogaethau a warchodir, a deddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a chynefinoedd.

**5.3** Bydd dysgwyr yn gallu adnabod yr ystyriaethau cynaliadwy a ddefnyddir ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a chydnabod cwmpas eu defnydd i gynnal adeilad iach. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu nodi'r ffyrdd y gall adeiladau wrthbwyso eu hôl troed carbon.

**5.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall defnyddio gwahanol ddeunyddiau leihau effaith amgylcheddol yn eu maes crefft, ac egwyddorion y ‘3 A’ o reoli gwastraff (arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu).

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw archebu deunyddiau’n gywir er mwyn lleihau gwastraff safle ac arbed arian ar archebu gormod a chostau gwaredu gwastraff, storio deunyddiau mewn ffordd briodol a rheoli’r stocrestr a didoli gwastraff yn briodol ar y safle.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ganllawiau arfer da fel WRAP ar gyfer rheoli gwastraff y diwydiant. Bydd dysgwyr yn deall natur deunyddiau ailgylchadwy a bioddiraddadwy a’r effaith y mae’n ei chael ar dirlenwi a’r gost i’r amgylchedd a’r math o ddeunyddiau sy’n cael eu hailgylchu’n gyffredin ar y safle.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall deunyddiau sgrap ddal gwerth (yn cynnwys copr) gan ei fod yn adnodd cyfyngedig ac yn gwybod am y gofrestr gyhoeddus o’r rhai sy’n delio mewn metel sgrap yng Nghymru.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cael gwared ar wastraff peryglus gan gynnwys casglu gwastraff asbestos ffibrog ac asbestos wedi ei fondio â sment. Defnyddio cludwyr gwastraff trwyddedig, broceriaid a masnachwyr. Y canlyniadau iddo’i hun, i eraill, ac i’r amgylchedd o beidio â dilyn yr arferion gorau, a gofynion statudol cysylltiedig mewn perthynas â gwaredu gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gwybod am agweddau allweddol rheoliadau gan gynnwys Deddf Diogelu’r Amgylchedd, Rheoliadau Gwastraff Peryglus, Deddf Atal a Rheoli Llygredd, Deddf Rheoli Llygredd, Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.

# Uned 302: Gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru

| **GLH:** | 40 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae’r uned hon yn rhoi dealltwriaeth gyfannol i’r dysgwr o’r amgylchedd adeiledig yng Nghymru, sut mae wedi newid a’r angen am amgylchedd adeiledig diogel a chyflawni prosiectau/gwaith diogel.

Bydd dysgwyr hefyd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cynllunio ac adolygu gwaith, a sut mae gwneud gwaith cynllunio a gwerthuso effeithiol. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio a chyfathrebu’n effeithiol ag eraill.

Ar ôl cwblhau’r uned hon, bydd dysgwyr yn:
- deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru
- deall sut i weithio’n effeithiol gydag eraill.

**Argymhellir cyn ymgymryd â’r uned hon y dylai Uned 301 Deall arferion adeiladu yng Nghymru fod wedi’i haddysgu i ddysgwyr.**

Gellir cyflwyno dysgwyr i’r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:
- Beth yw PESTLE?
- Sut bydd y rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM) yn effeithio ar fy arferion gweithio?
- Sut gallwn ni ddatblygu a chynnal tîm sy’n perfformio’n dda?
- Sut mae cael enw da fel crefftwr?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru

## Meini Prawf

**1.1** Y stoc adeiladau yng Nghymru
**Ystod:** ffurfiau; dibenion; deunyddiau'n newid; cyfnodau stoc adeiladu yng Nghymru

**1.2** Ffactorau sy'n dylanwadu ar newid yn yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru
**Ystod:** gwleidyddol; amgylcheddol; cymdeithasol; technolegol; cyfreithiol ac economaidd

**1.3** Diogelwch yr amgylchedd adeiledig

### 2. Deall sut mae gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill

## Meini Prawf

**2.1** Sut mae datblygu a chynnal perthynas waith gynhyrchiol

**2.2** Sut mae cyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyflogwyr a chyd-weithwyr, ac â rhanddeiliaid eraill drwy gydol prosiectau amgylchedd adeiledig

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

Yn y deilliant dysgu hwn bydd y dysgwr yn cael dealltwriaeth gyfannol o'r sector adeiladu. Mae'r deilliant hwn yn adeiladu ar Uned 301 Deall arferion adeiladu yng Nghymru.

**1.1** Ar gyfer y strwythurau domestig canlynol, bydd y dysgwr yn gallu nodi prosiectau ôl-osod, adnewyddu a datblygu sy'n sicrhau bod yr adeiladau'n cyrraedd y safonau rheoleiddio presennol. Bydd dysgwyr yn gwybod y canlynol:

Tai: yn sownd yn ei gilydd ac ar wahân.

Cyn 1919:
- carreg solet
- brics solet
- ffrâm bren draddodiadol.

Wal geudod:
- brics a blociau
- Ffrâm bren fodern – pren gyda blociau allanol.

Rhagffurfio a chynnydd mawr mewn tai:
- Tai ar ôl yr Ail Ryfel Byd
- gwaith rhagffurfio modern oddi ar y safle
- fflatiau – rhandai uchel.

Bydd dysgwyr yn deall y rhesymau y tu ôl i ragffurfio – arbedion maint yn bennaf, a'r gallu a'r angen i ddarparu tai o ansawdd gwell o fewn cyfnod byr.

Bydd dysgwyr yn deall yr angen am dai sy'n defnyddio ynni'n effeithlon:

- ôl-osod
- deunyddiau naturiol
- BREEAM a Passivhaus
- yr angen i gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu.

BREEAM yw'r dull a ddefnyddir fwyaf yn y DU i adolygu a gwella perfformiad amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol adeiladau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae adeiladau Passivhaus yn darparu lefel uchel o gysur i'r preswylydd tra'n defnyddio ychydig iawn o ynni ar gyfer gwresogi ac oeri. Maent yn cael eu hadeiladu gan roi sylw manwl i fanylion a dylunio ac adeiladu trylwyr yn unol â'r egwyddorion a ddatblygwyd gan Sefydliad Passivhaus yn yr Almaen, a gellir eu hardystio drwy broses sicrhau ansawdd fanwl.

Safon Adeiladu WELL: Mae WELL yn system seiliedig ar berfformiad ar gyfer mesur, ardystio a monitro nodweddion yr amgylchedd adeiledig sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl, drwy aer, dŵr, maeth, golau, ffitrwydd, cysur a meddwl.

Bydd dysgwyr yn deall y gofynion i gyrraedd targedau arbed ynni.

Unedau diwydiannol a ffatrïoedd:

- ffatrïoedd a warysau hanesyddol
- 20fed ganrif
- unedau diwydiannol modern gan gynnwys canolfannau siopa.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth mae ailddefnyddio adeiladau a deunyddiau adeiladu yn ei gynnwys ac yn gwybod am y mathau o adeiladau sydd ar gael at ddibenion lluosog/addasadwy.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd effeithlonrwydd ynni ac ynni corfforedig o ran cyrraedd y targed di-garbon. Bydd dysgwyr yn deall gwerth cynnal a chadw ac atgyweirio'r stoc dai bresennol o ran cynaliadwyedd ac arbed carbon o'i gymharu â chodi adeiladau newydd yn lle adeiladau presennol yr 20fed ganrif.

Newid i ddeunyddiau

Bydd dysgwyr yn deall y newidiadau a ddigwyddodd yn sgil cyflwyno'r broses o safoni deunyddiau a pha effaith mae hyn yn ei chael ar y diwydiant adeiladu.

Bydd dysgwyr yn deall rôl safoni mewn perthynas â diogelwch yn y diwydiant hefyd. Mae argaeledd deunyddiau ar gyfer ansawdd a pherfformiad cydnabyddedig yn bwysig, yn enwedig wrth ddatblygu a gweithgynhyrchu deunyddiau newydd, a'u defnyddio mewn adeiladu modern.

Bydd dysgwyr yn gwybod y rôl y mae deunyddiau fel sment, gwydr a dur wedi'i chwarae yn y diwydiant ac yn eu crefft hwy eu hunain, a'r effaith y mae datblygiadau arloesol o ran deunyddiau wedi'i chael ar raddfa a chyflymder gwaith adeiladu.

Bydd dysgwyr yn deall pam mae pilenni atal lleithder (DPC, DPM) wedi'u cynnwys mewn gwaith adeiladu ar ôl 1919 a pham nad ydynt yn addas ar gyfer strwythurau waliau solet.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall dylanwadau PESTLE gan gynnwys:

- gwleidyddol: sut mae mentrau'r llywodraeth/newidiadau mewn llywodraeth yn effeithio ar y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, cyfreithiau, trethi a sut mae hyn yn effeithio ar y galw
- amgylcheddol: targedau i leihau allyriadau, gwarchod yr amgylchedd naturiol/ adeiledig
- cymdeithasol: oedran y boblogaeth/demograffig, gofynion diwylliannol, twf yn y boblogaeth
- technolegol: technolegau newydd a defnyddio technoleg, newidiadau mewn deunyddiau ac arloesi
- cyfreithiol: rheoliadau newydd/newidiadau i reoliadau ac ati fel Rheoliadau Adeiladu, cydsyniad/caniatâd cynllunio, diogelwch adeiladau a gwasanaethau adeiladu
- economaidd: fforddiadwyedd, diweithdra/cyflogaeth, yr economi.

Bydd dysgwyr yn nodi'r prif resymau dros gynnydd a gostyngiad yn y galw am dai dros y 100 mlynedd diwethaf a'r ffordd y mae hyn wedi achosi amrywiadau o ran adeiladu tai.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am ddatblygiadau ym maes dylunio pensaernïol a gwyddor deunyddiau, a'u dylanwad ar adeiladu modern, gan gydnabod hefyd bod angen canolbwyntio ar ddiogelwch defnyddwyr yn y tymor hir wrth addasu, creu a chynnal adeiladau. Bydd hyn yn cynnwys deunyddiau adeiladu, cynnyrch a gwasanaethau a rôl Rheoliadau CDM (Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli)) a'r wybodaeth hanfodol y gellir ei rhagweld i'w darparu ar gyfer gwaith cynnal a chadw, atgyweirio a glanhau'r adeilad yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn deall marciau sicrwydd ansawdd cynhyrchion (fel y nod CE) a pherthnasedd y Rheoliadau Cynhyrchion Adeiladu. Y canllawiau ar y Rheoliadau Adeiladu - Dogfen Gymeradwy 7: deunyddiau a gwaith, Nod Barcud BSI, y Datganiad Cydymffurfio, a gofynion penodol i grefft cynnyrch (fel Ceblau sydd wedi'u Cymeradwyo gan BASEC).

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ganllawiau perthnasol eraill fel RSPA (Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau) Safer by Design. Bydd dysgwyr yn adnabod y Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER), bod cyfarpar gwaith, gan gynnwys gosodiadau, wedi'i adeiladu yn y fath fodd, neu wedi'i addasu fel ei fod yn addas i'r diben y'i darperir ar ei gyfer. Rhaid i ofynion cysylltiedig sy'n berthnasol fel cyfarpar codi hefyd fodloni gofynion Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER), rhaid i gyfarpar gwasgedd fodloni'r Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd.

Gellir trafod goblygiadau diffyg ystyriaeth i ddiogelwch defnyddwyr drwy ddefnyddio enghreifftiau fel asbestos a thrychineb Tŵr Grenfell. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o gynllun Llywodraeth Cymru i ddiwygio rheoliadau a diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn, a'r camau gweithredu o ran y 'Map Tuag at Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'.

Bydd dysgwyr yn deall yr ystyriaethau a'r goblygiadau o wneud newidiadau i adeiladau a chyfrifoldebau'r cwsmer/cleient a'r contractwr a sut mae hyn yn berthnasol i'r Rheoliadau Adeiladu a dogfennau cymeradwy perthnasol a

chanllawiau technegol. Bydd dysgwyr yn gwybod bod gofynion perthnasol gwahanol yng Nghymru a Lloegr (ee y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig yng Nghymru).

Bydd dysgwyr yn deall yr angen am gydsyniad/caniatâd perthnasol i waith gael ei wneud (a allai fod yn ofynnol ar gyfer mân waith ar adeilad rhestredig yng Nghymru), gan gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu (gan ddilyn dogfennau cymeradwy) a defnyddio deunyddiau priodol. Bydd dysgwyr yn deall ei bod yn ddyletswydd ar y contractwr i wneud gwaith diogel a chyflawni prosiectau diogel ar gyfer y cwsmer/cleient.

Bydd dysgwyr yn deall canlyniadau peidio â gwneud gwaith diogel/cyflawni prosiectau/gwaith anniogel.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd defnyddio deunyddiau, cydrannau a chynnyrch addas sy'n briodol ar gyfer y dasg adeiladu, ac sy'n cynnal diogelwch adeiladau ar gyfer defnyddwyr adeiladau yn y tymor hir.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd ildio i farn cydweithwyr cymwysedig, pan ac os oes angen, i wirio neu gwblhau gwaith i sicrhau bod diogelwch defnyddwyr/adeiladau yn cael ei gynnal.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o dechnegau a chyfryngau cyfathrebu a'u haddasrwydd, ee wyneb yn wyneb, gwrando gweithredol/goddefol, ysgrifenedig, llafar ac electronig. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd anghenion unigolion drwy ddefnyddio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd dysgwyr yn deall sut i gynnal ac annog perthnasoedd gwaith da ffurfiol ac anffurfiol i hyrwyddo ewyllys da ac ymddiriedaeth gyda'r bobl berthnasol. Gall hyn olygu cadw addewidion ac ymgymeriadau, bod yn onest a meithrin perthnasoedd adeiladol, cydweithredu, a chael deialog briodol a da.

Bydd dysgwyr yn adnabod camau datblygu tîm ym model datblygu tîm Tuckman fel:

- ffurfio (forming)
- herio (storming)
- normaleiddio (norming)
- perfformio (performing).

Bydd dysgwyr yn deall sut mae trafod cynigion â phobl berthnasol a thrafod awgrymiadau eraill – gan werthfawrogi y dylent annog cwestiynau a cheisiadau am eglurhad a sylwadau.

Bydd dysgwyr yn deall manteision tîm sy'n perfformio'n dda. Bydd dysgwyr yn deall sut mae datrys gwahaniaethau barn mewn ffyrdd sy'n lleihau tramgwydd ac yn cynnal ewyllys da, ymddiriedaeth a pharch eraill, a pham mae hyn yn bwysig.

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall sut mae cadarnhau a chyfleu'r gofynion sy'n berthnasol i'r gwaith. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cadarnhau a chyfleu'r dull gwaith i'r bobl berthnasol, ee cydweithwyr, cyflogwyr, cwsmeriaid, contractwyr, cyflenwyr cynnyrch a gwasanaethau a'r rheini y mae'r gwaith/prosiect yn effeithio arnynt gyda'r lefel briodol o fanylion a'r lefel briodol o frys. Gall y manylion hyn gynnwys cynnydd y gwaith, canlyniadau, cyflawniadau, problemau galwedigaethol, cyfleoedd

galwedigaethol, gofynion iechyd a diogelwch a chydlynu gwaith (ee gyda chrefftau/cydweithwyr eraill). Bydd dysgwyr yn deall manteision gofal cwsmer da i gwsmeriaid presennol ac i gwsmeriaid posibl yn y dyfodol (fel atgyfeiriadau, sicrhau bod cwsmeriaid yn dod yn ôl atynt, adborth da, cwsmeriaid bodlon, mwy o gyfleoedd refeniw).

# Uned 303: Cynllunio a gwerthuso gwaith yn y sector adeiladu yng Nghymru

| GLH: | 35 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn rhoi'r cymwyseddau i'r dysgwr ynghylch sut mae cynllunio a gwerthuso gwaith yn ei grefft. Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio gwaith i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol ag unrhyw safonau perthnasol yn y diwydiant, a'r meini prawf derbyn a llwyddiant sy'n berthnasol.

Bydd dysgwyr yn gallu trefnu adnoddau a chynllunio sut mae defnyddio'r adnoddau hyn a'u hamser. Bydd dysgwyr yn trefnu eu gweithgareddau gwaith eu hunain, gan ddelio â phroblemau nodweddiadol sy'n codi yn eu gwaith, a gofyn am gyngor gan eraill os bydd angen. Bydd dysgwyr yn gallu cyfleu gofynion y gwaith i gwsmeriaid, cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd neu grefftau eraill.

Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso eu gwaith gorffenedig a pha mor effeithiol oeddent yn y camau cynllunio a pherfformio; gan nodi cryfderau a gwendidau a defnyddio ymarfer myfyriol i hwyluso gwelliant parhaus.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:
- cynllunio'r gwaith sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg/tasgau
- gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddiant

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:
- Sut ydw i'n sicrhau nad oes gen i lawer o wastraff wrth adeiladu tŷ?
- Ble alla i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ofynion materion technegol a deunyddiau?
- Pa ffactorau y mae angen i mi eu hystyried wrth werthuso fy mherfformiad?

## Deilliant dysgu

### 1. Cynllunio'r gwaith sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg/tasgau

## Meini Prawf

**1.1** Trefnu'r adnoddau sydd eu hangen
**Ystod:** offer; cyfarpar; deunyddiau

**1.2** Gosod meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg/tasgau

**1.3** Gwneud gwaith cynllunio effeithiol
**Ystod:** amserlenni; trefnu; ansawdd; cost

**1.4** Rhesymu pam mai'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yw'r un mwyaf priodol

**1.5** Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff y gwaith
**Ystod:** ariannol; amgylcheddol

**1.6** Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg a nodi'r camau i'w cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau
**Ystod**: natur y dasg; crefftau eraill; adnoddau; yr amgylchedd gwaith; amserlenni; tasgau wrth gefn; addasiadau; mynediad; unrhyw ffactorau allanol perthnasol eraill

**1.7** Nodi gofynion trosglwyddo'r gwaith
**Ystod:** gwybodaeth; dogfennau; cyfathrebu

### 2. Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddiant

## Meini Prawf

2.1 Adolygu pa mor briodol yw'r meini prawf llwyddiant a osodwyd

2.2 Gwerthuso'r defnydd a'r dewis o adnoddau
**Ystod**: offer; peiriannau; cyfarpar; cynnyrch; deunyddiau

2.3 Gwerthuso'r allbwn gorffenedig
**Ystod:** addas i'r pwrpas; diogel; bodloni briff y dasg/meini prawf derbyn; meini prawf llwyddiant

2.4 Gwerthuso ei berfformiad ei hun
**Ystod:** dulliau; technegau; prosesau; effeithiolrwydd; cryfderau; gwendidau; gwersi a ddysgwyd; gwelliant parhaus

2.5 Adolygu cyflawni'r amserlenni

2.6 Gwerthuso'r broses drosglwyddo

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall sut i nodi adnoddau i gynhyrchu rhestr adnoddau, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif yn ôl yr angen, fel dadansoddol (o'r gwaelod i fyny), cymharol (o'r brig i lawr/hanesyddol) a pharametrig. Bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi'r 'twndis amcangyfrif'. Bydd dysgwyr yn adnabod mathau o adnoddau fel defnyddiau treuliadwy (ailgyflenwadwy), megis deunyddiau ac arian ac adnoddau ailddefnyddiadwy, megis peiriannau, cyfarpar a phobl.

Bydd dysgwyr yn gallu trefnu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg/tasgau. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod yr angen am offer, peiriannau, cyfarpar, cynhyrchion a deunyddiau, a chynllunio pryd i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gofyn am eglurhad a chyngor pan nad yw'r adnoddau sydd eu hangen ar gael ee gan y cwsmer/cynrychiolydd y cwsmer, gwybodaeth dechnegol y gwneuthurwr, llenyddiaeth y grefft neu gyfeirio at weithdrefnau'r sefydliad.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gallu nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg, a ddylai gynnwys cerrig milltir llai sy'n nodi gweithgareddau allweddol, defnydd o ddeunyddiau ac ansawdd y gorffeniad ac ati, wedi'u llunio yng nghyd-destun gofynion cyffredinol y dasg.

**1.3** Bydd dysgwyr yn defnyddio dulliau cynllunio effeithiol i gyfrifo'r amser sydd ei angen i gwblhau tasgau'n llwyddiannus, gan gynnwys rhestr waith, gan amserlennu gweithgareddau tasgau er mwyn galluogi tasgau i gael eu cwblhau i'r safon sy'n ofynnol o fewn yr amserlen a bennwyd. Bydd dysgwyr yn nodi gwahanol fathau o ddibyniaethau rhwng tasgau ac yn ystyried hyn wrth gynllunio camau'r gwaith.

Bydd dysgwyr yn gallu nodi dulliau gweithio a fydd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn bodloni gofynion prosiect, statudol a chytundebol, gan roi manylion y rhain mewn datganiad dull.

Bydd dysgwyr yn deall yr angen i ystyried cwmpas y gwaith yn ofalus er mwyn osgoi tanamcangyfrif yr hyn sy'n ofynnol.

**1.4** Bydd dysgwyr yn esbonio pam mai'r dull sydd wedi'i gynllunio ar gyfer tasgau yw'r un mwyaf priodol ac y bydd yn eu galluogi i gyflawni'r gofynion o ran ansawdd ac amserlen.

**1.5** Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio'r defnydd o ddulliau gweithio i helpu i sicrhau canlyniadau di-garbon neu garbon isel a bod yn ystyriol o ddefnyddio adnoddau a gwastraff – gan ddangos tystiolaeth o ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ariannol. Bydd dysgwyr yn deall dulliau cynllunio, a chynllunio ar gyfer effeithlonrwydd, rheoli costau/arbedion, cyfyngu ar wastraff, cyflawni amserol a throsglwyddo'n glir.

**1.6** Bydd dysgwyr yn deall yn ystod y cam cynllunio y gellir rhagweld problemau ac felly y gellir eu rheoli'n haws, er enghraifft o fewn asesiad risg (dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol). Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio camau lliniaru ar gyfer problemau/materion posibl. Cydnabod y gall problemau godi o'r tywydd, natur y dasg, crefftau eraill, argaeledd adnoddau ac ati. Bydd dysgwyr yn gallu asesu'r effeithiau sy'n deillio o newidiadau i'r rhaglen waith ac yn gallu rheoli risgiau (o fewn

eu rheolaeth) a fyddai'n effeithio ar gwblhau'r tasgau.

**1.7** Bydd dysgwyr yn gallu cyfleu cynnydd i randdeiliaid perthnasol fel y cyflogwr/goruchwyliwr neu'r cwsmer. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mesurau i reoli mynediad i'r safle (mae Adran 3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal busnes heb roi aelodau o'r cyhoedd mewn perygl). Mae hyn yn cynnwys y cyhoedd a gweithwyr eraill y gallai'r gwaith effeithio arnynt. Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r ddogfen berthnasol (fel y bo'n briodol) sydd ei hangen ar gyfer trosglwyddo a byddant yn gallu cynllunio'r trosglwyddo, gan ddefnyddio'r wybodaeth, y dogfennau a'r dulliau cyfathrebu (a'r dulliau arddangos) priodol fel sy'n berthnasol i'r gwasanaeth crefft a ddarparwyd.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso a oedd y meini prawf llwyddiant yn cefnogi cyflawni'r dasg yn llwyddiannus ac yn effeithlon, a wnaethant greu unrhyw rwystrau diangen? Bydd dysgwyr yn ystyried a allai meini prawf gwahanol/ychwanegol fod wedi helpu.

**2.2** Bydd y dysgwyr yn gallu gwerthuso eu dewis a'u defnydd o adnoddau, pa mor briodol yw'r dewis o offer, faint o ddeunyddiau a ddewiswyd, pa mor effeithlon yw'r dewis a'r defnydd o ddeunydd. Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso effaith ar gost a'r amgylchedd.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso ansawdd eu gwaith gorffenedig yn unol â safonau'r diwydiant a diogelwch, i ba raddau y mae'n bodloni briff y dasg a gofynion y cyflogwr/cwsmer.

**2.4** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso'r gosodiad a'r gorffeniad yn gyffredinol, a myfyrio ynghylch yr hyn y gallent fod wedi'i wneud yn wahanol i wella'u hallbwn. Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain, a'r meysydd i'w gwella. Bydd dysgwyr yn gallu cyfleu'r gwersi a ddysgwyd ganddynt pan a phryd y bo angen.

**2.5** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso'r rhesymau dros unrhyw oedi, sut gellid bod wedi osgoi'r rhain, a sut gellid eu lliniaru yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn adnabod y rhesymau dros unrhyw arbedion amser, ac yn ystyried sut gallent gymryd gwersi a ddysgwyd i ystyriaeth wrth gynllunio yn y dyfodol.

**2.6** Bydd dysgwyr yn gwerthuso ansawdd ac eglurder yr wybodaeth a ddarparwyd wrth drosglwyddo, cyflawni pwrpas y trosglwyddo a llwyddiant y dull cyfathrebu a ddewiswyd.

# Uned 304: Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

| **GLH:** | 21 |
| --- | --- |

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ofynion statudol cyfredol perthnasol a chanllawiau swyddogol i gynnwys cyfrifoldebau, i'w hunain ac i eraill, sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Mae hefyd yn ymdrin ag ymddygiad personol a diogelwch yn y gweithle yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- derbyn cyfrifoldeb dros bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad a chydymffurfio â hwy er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles
- cydymffurfio â holl drefniadau diogelwch a gweithdrefnau cymeradwy'r sefydliad a'u cefnogi.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Am ba reoliadau y mae angen i mi wybod?
- Beth mae datganiad dull yn ei ddweud wrthyf?
- A fydd yn rhaid i mi weithio gyda deunyddiau a sylweddau peryglus?
- Sut mae adnabod asbestos?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle

## Meini Prawf

**1.1** Pa ddeddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol a pham

**1.2** Pa hysbysiadau ac arwyddion rhybudd yn ymwneud â deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol a'r cyfarpar cysylltiedig

**1.3** Sut mae cydymffurfio â mesurau rheoli a nodir drwy asesiadau risg a systemau gweithio diogel

**1.4** Pam, pryd a sut dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

### 2. Deall sut mae adnabod peryglon

## Meini Prawf

**2.1** Y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd gwaith

**2.2** Sut mae amgylchiadau sy'n newid yn gallu creu peryglon

**2.3** Y dull o roi gwybod am beryglon yn y gweithle

### 3. Deall polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Meini Prawf

**3.1** Beth yw polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer iechyd, diogelwch a lles

**3.2** Sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles

**3.3** Sut gall gweithredoedd ac ymddygiad unigol effeithio ar eraill

**3.4** Beth yw'r mathau o gyfarpar diffodd tân, a sut a pha bryd mae eu defnyddio

### 4. Deall sut mae rhoi trefniadau diogelwch ar waith

## Meini Prawf

**4.1** Sut mae trefniadau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gofynion statudol a/neu ganllawiau swyddogol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles ar gyfer yr alwedigaeth a'r man gweithio.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol hysbysiadau ac arwyddion rhybudd sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithio'n ddiogel ac yn unol â mesurau rheoli a nodwyd drwy asesiadau risg a systemau gweithio diogel.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch priodol yn ôl yr egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, gwahanol sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol, gan gynnwys:

- mesurau diogelu cyfunol
- systemau awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth (LEV)
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu anadlol (RPE).

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â'r maes galwedigaethol, gan gynnwys peryglon mewn perthynas ag: adnoddau, y gweithle, yr amgylchedd, sylweddau, asbestos, silica, cyfarpar, rhwystrau, storio, gwasanaethau a gweithgareddau gwaith.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod y risgiau cyffredin presennol o ran diogelwch a'r risgiau cyffredin i iechyd.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau cofnodi a gofynion statudol y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am beryglon yn y gweithle.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithio'n ddiogel yn unol â gofynion y sefydliad, gan gynnwys derbyn neu ddod o hyd i wybodaeth, cofnodi, rhoi'r gorau i weithio, gwagio'r safle, risgiau tân a gweithdrefnau gadael diogel, ymgynghori ac adborth, cynefino, sgwrs blwch offer ac arwyddion.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae delio â damweiniau ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r math o waith sy'n cael ei wneud a'r amgylchedd gwaith.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cymryd cyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles, yn unol â'u hyfforddiant a'u sgiliau.

**3.3** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd, diogelwch a lles, ac yn gwybod pryd i roi'r gorau i weithio yn wyneb perygl difrifol a pherygl sydd ar fin digwydd.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gyfrannu at drafodaethau a rhoi adborth gwerthfawr. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae rhoi gwybod am amgylchiadau a digwyddiadau sydd wedi newid yn y gweithle gan lynu wrth ofynion amgylcheddol y gweithle.

**3.4** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gwahanol gyfarpar diffodd tân a'u defnydd, gan gynnwys dŵr, $CO_2$, ewyn, powdr a hylif anweddu.

**Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau'r sefydliad sy'n ymwneud â'r gweithle, y cyhoedd, staff y safle ac adnoddau, a sut maent yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle.

## Deilliant dysgu

### 5. Derbyn cyfrifoldeb dros bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad a chydymffurfio â hwy er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles

## Meini Prawf

**5.1** Arddangos ymddygiad personol sy'n dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

**5.2** Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad sy'n ymwneud â'r canlynol:
- ystyried pobl eraill
- dehongli cyfarwyddiadau a roddwyd er mwyn cynnal systemau gweithio diogel
- cyfrannu at drafodaethau (cynnig a rhoi adborth)
- cynnal arferion gweithio o safon
- cyfrannu at gynnal cyfleusterau lles yn y gweithle
- storio a defnyddio cyfarpar a ddarperir i gadw pobl yn ddiogel
- cael gwared ar wastraff a/neu eitemau traul

### 6. Cydymffurfio â holl drefniadau diogelwch a gweithdrefnau cymeradwy'r sefydliad a'u cefnogi

## Meini Prawf

**6.1** Yn unol â gofynion y sefydliad o ran:
- delio â damweiniau ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r math o waith sy'n cael ei wneud a'r amgylchedd gwaith
- dulliau o dderbyn neu ddod o hyd i wybodaeth
- rhoi gwybod
- rhoi'r gorau i weithio
- gwagio safle
- risgiau tân a gweithdrefnau gadael diogel
- ymgynghori ac adborth

# Uned 305: Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol

| | |
|---|---|
| **GLH:** | 14 |

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chyfathrebu cynhyrchiol â rheolwyr llinell, cydweithwyr a chwsmeriaid yn ogystal â dehongli gwybodaeth, cynllunio a chynnal arferion gwaith cynhyrchiol a gweithio gydag eraill neu fel unigolyn, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- cyfathrebu ag eraill
- dilyn gweithdrefnau'r sefydliad i gynllunio trefn y gwaith er mwyn cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chadw cofnodion
- cynnal perthynas waith dda

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Pa waith papur fydd yn rhaid i mi weithio ag ef ar y safle?
- Beth mae cydraddoldeb ac amrywiaeth (E&D) yn ei olygu mewn gwirionedd?
- A fydd yn rhaid i mi fynychu cyfarfodydd a sesiynau briffio ar ôl fy sesiwn cynefino?
- Beth yw gweithdrefnau'r sefydliad?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut i gyfathrebu ag eraill

## Meini Prawf

**1.1** Sut mae defnyddio dulliau cyfathrebu gyda staff eraill yn y gweithle a gyda chwsmeriaid

**1.2** Sut mae cyfathrebu i sicrhau bod y gwaith yn gynhyrchiol

### 2. Deall sut mae dilyn gweithdrefnau

## Meini Prawf

**2.1** Sut mae gweithdrefnau'r sefydliad yn cael eu defnyddio i gynllunio a chyflawni gwaith cynhyrchiol

**2.2** Sut mae cadw dogfennau yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

**2.3** Sut mae cyfrannu at ganlyniadau di-garbon/carbon isel yn yr amgylchedd adeiledig

### 3. Deall sut mae cynnal perthynas waith dda

## Meini Prawf

3.1 Sut mae cynnal perthynas waith dda

3.2 Sut mae cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys gwrando, ysgrifennu, llafar, gweledol ac electronig.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth yn glir a bod y gwaith yn gynhyrchiol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio adnoddau'n briodol ar gyfer eu gofynion gwaith eu hunain a gofynion gwaith pobl eraill. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwaith priodol yn cael ei ddyrannu i weithwyr a sut caiff trefn y gwaith ei drefnu.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal dogfennau'n briodol, gan gynnwys cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thaflenni amser.

**2.3** Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod sut mae cyfrannu at leihau allyriadau carbon yn yr amgylchedd adeiledig.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae meithrin a chynnal perthynas dda gydag eraill, gan gynnwys: unigolion, grwpiau yn y gweithle (y cwsmer a'r gweithiwr, y gweithiwr a rheolwyr llinell, ei alwedigaeth ei hun a galwedigaethau cysylltiedig).

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ystyried anghenion unigolion drwy gymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Deilliant dysgu

### 4. Cyfathrebu ag eraill

## Meini Prawf

**4.1** Cyfathrebu â rheolwyr llinell, cydweithwyr neu gwsmeriaid i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd gynhyrchiol

**4.2** Parchu anghenion pobl eraill wrth gyfathrebu

### 5. Dilyn gweithdrefnau'r sefydliad i gynllunio trefn y gwaith er mwyn cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chadw cofnodion

## Meini Prawf

**5.1** Dehongli gweithdrefnau a defnyddio adnoddau i gynllunio trefn y gwaith, er mwyn iddo gael ei gwblhau mewn ffordd gynhyrchiol

**5.2** Cwblhau dogfennau fel sy'n ofynnol gan y sefydliad

### 6. Cynnal perthynas waith dda

## Meini Prawf

**6.1** Gweithio'n gynhyrchiol gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr, cwsmeriaid neu bobl eraill

**6.2** Cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

# Uned 306: Symud, trin neu storio adnoddau

| GLH: | 30 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gweithio diogel ac iach, gan gynnwys dewis cymhorthion neu gyfarpar i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol. Mae hefyd yn cynnwys symud, trin a storio adnoddau galwedigaethol i gynnal cyflwr defnyddiol, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- deall sut mae dehongli gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser
- cydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Pa mor drwm fydd gwrthrych y bydd disgwyl i mi ei gario?
- Ydw i'n gyfrifol am ddiogelwch safle?
- Fydda i'n dysgu sut mae defnyddio'r technegau codi cywir?
- Beth yw ystyr FIFO?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut mae dehongli gwybodaeth

## Meini Prawf

**1.1** Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith

**1.2** Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maent yn cael eu dehongli

**1.3** Gweithdrefnau'r sefydliad o ran datrys problemau â gwybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn

**1.4** Sut mae cael gwybodaeth i ddefnyddio a storio cymhorthion a chyfarpar codi

### 2. Deall arferion gweithio diogel

## Meini Prawf

**2.1** Lefel y ddealltwriaeth y mae angen i weithwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio

**2.2** Y mathau o gyfarpar diffodd tân a sut a pha bryd mae defnyddio'r rhain

**2.3** Sut dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb

**2.4** Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

**2.5** Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

**2.6** Pam, pryd a sut dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

### 3. Deall y broses o ddewis adnoddau

## Meini Prawf

**3.1** Nodweddion, ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a sut mae cywiro diffygion

**3.2** Sut mae defnyddio'r adnoddau a sut mae rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau

**3.3** Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau, pam maent wedi cael eu llunio a sut mae eu defnyddio

**3.4** Y peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gweithio a sut mae goresgyn y rhain

## 4. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

### Meini Prawf

**4.1** Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu

**4.2** Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut mae gwneud hynny

## 5. Deall sut i gydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol

### Meini Prawf

**5.1** Sut mae dulliau gweithio, er mwyn bodloni'r fanyleb, yn cael eu cyflawni a sut mae rhoi gwybod am broblemau

## 6. Deall sut mae gweithio i derfynau amser

### Meini Prawf

**6.1** Beth yw'r rhaglen ar gyfer gwneud y gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau'r sefydliad sydd ar waith i roi gwybod am broblemau gyda gwybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u datrys. Bydd dysgwyr yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith yn y sefydliad.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o wybodaeth sydd ar gael a sut mae modd eu cyflwyno a'u dehongli. I gynnwys:

- technegol – ee taflenni data diogelwch
- cynnyrch – ee llenyddiaeth y gwneuthurwr
- rheoleiddiol – ee iechyd a diogelwch (Datganiadau Dull Asesu Risg (RAMS))
- dogfennau ysgrifenedig – ee nodiadau danfon, ffurflenni archebu
- dulliau cyflwyno – llafar (ee cyfarwyddiadau llafar), ysgrifenedig (ee manyleb, taflen waith), cyflwyniad graffigol (ee rhaglen waith).

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau'r sefydliad sydd ar waith i ddatrys problemau gyda gwybodaeth ac yn gwybod pwysigrwydd eu dilyn yn gywir.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dod o hyd i wybodaeth i ddefnyddio a storio cymhorthion a chyfarpar codi yn ddiogel.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran damweiniau posibl a pheryglon i iechyd wrth weithio gyda'r canlynol; offer a chyfarpar, deunyddiau a sylweddau, symud a storio deunyddiau ac wrth godi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y cyfarpar diogelu personol cywir a phwysigrwydd sesiynau cynefino a hyfforddiant. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dehongli adroddiadau RAMS, COSHH a thaflenni data Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â rhoi gwybod am beryglon newydd/damweiniau fu bron â digwydd a sut mae defnyddio technegau priodol (yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol):

- yn y gweithle – ee mynedfeydd, allanfeydd a llwybrau cerdded diogel, symud peiriannau, cloddiadau, gweithio ar eich pen eich hun
- mewn mannau cyfyng – ee cynlluniau argyfwng, cyfarpar amddiffynnol anadlol (RPE), awyru lleol sy'n gwacau mygdarth (LEV)
- o dan lefel y tir – ee allanfeydd diogel, gwasanaethau, llifogydd/dŵr daear
- ar uchder – ee diogelu rhag cwympo, harneisiau diogelwch, cyfarpar mynediad cywir.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol gyfarpar diffodd tân sydd ar gael a sut i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod y dosbarthiadau canlynol:

- dŵr – coch/Dosbarth A, deunyddiau carbonaidd
- CO2 – du/Dosbarth B ac E, trydanol a hylifau fflamadwy
- ewyn – hufen/dosbarth A a B, deunyddiau carbonaidd a hylifau fflamadwy
- powdr – glas, pob dosbarth o dân.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwysau symud offer diffodd tân a'r technegau trin/gweithredu ar gyfer diogelwch. Bydd dysgwyr yn gwybod lleoliad y cyfarpar diffodd tân mewn perthynas â deunyddiau sydd wedi'u storio.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu cyfrifoldeb mewn ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol wrth ymdrin â'r canlynol:

- tanau – ee defnyddio diffoddyddion tân ar gyfer gwahanol fathau o dân, gwagio, atal
- gollyngiadau – ee atal, pecynnau gollyngiadau, arwyddion, cau'r ardal
- anafiadau – ee swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf, adrodd ar ddamweiniau
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol – ee atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, adrodd.

**2.4** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol weithdrefnau diogelwch, gan gynnwys:

- safle – ee ffensys/palisau dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle – ee agor/cloi
- y cwmni – ee mewngofnodi, gweithdrefnau awdurdodi ID

- gweithiwr – ee diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol.

**2.5** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau adrodd am ddamweiniau ac yn gwybod beth yw eu cyfrifoldeb eu hunain o ran adrodd. Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am adrodd.

**2.6** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch priodol yn ôl yr egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, yng nghyswllt gwahanol sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol, gan gynnwys:

- mesurau diogelu cyfunol
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu anadlol (RPE)
- systemau awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth (LEV).

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw mathau, nifer, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd adnoddau safonol a/neu arbenigol. Bydd dysgwyr yn gwybod am broblemau, namau neu ddiffygion posibl a sut mae delio â nhw.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddewis adnoddau ar gyfer gwahanol dasgau ac ar gyfer atal peryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith, gan gynnwys:

- adnoddau galwedigaethol – offer, deunyddiau a chyfarpar sy'n gysylltiedig â gwaith/crefft
- cymhorthion codi a thrin – ee berfa, tryc paledi, fforch godi, troli cario sachau
- cynwysyddion – ee cynhwysydd storio, cynhwysydd fflamadwy
- systemau gosod, dal a rhoi'n sownd – ee rhaffau a rhwymynnau, craffrwymau, strapiau cliciedu
- cylchdroi stoc darfodus, FIFO (cyntaf i mewn cyntaf allan).

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu hawdurdod eu hunain i ddatrys problemau neu sut i roi gwybod i'r goruchwyliwr priodol a gwneud cofnod priodol o'r broblem. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau adrodd y sefydliad, gan gynnwys y person cywir i'w hysbysu ac yn y fformat cywir i gynnwys cyfathrebu ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**3.3** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad o ran dewis adnoddau sy'n berthnasol i'r dasg. Bydd dysgwyr yn gwybod pam fod y gweithdrefnau ar waith a sut maent yn cael eu defnyddio.

**3.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod peryglon o'r wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys:

- dull gweithio – ee RAMS, sgyrsiau blwch offer, adrodd ar beryglon
- gwybodaeth dechnegol y gwneuthurwr – ee taflenni data iechyd a diogelwch

- rheoliadau statudol – ee COSHH, Gweithrediadau Codi a Chario, Rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAHR), Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER)
- canllawiau swyddogol – ee Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

**Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw fel storio cywir, danfon wedi'i drefnu yn unol â'r rhaglen waith ac amddiffyn yr ardal o amgylch.

**4.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth y gwneuthurwr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys sgipiau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

**Deilliant 5**

**5.1 Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau ac arferion gwaith diogel, gan gynnwys:**

- dull ac ardal y gwaith – gweithdrefnau codi cywir ar gyfer gwahanol ddeunyddiau (pwysau, nifer, siâp), llwybrau ar gyfer symud deunyddiau'n ddiogel, cadw allanfeydd yn lân ac yn glir
- deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer symud, trin a storio adnoddau galwedigaethol – ee technegau codi a chario cywir, gwahanol gymhorthion codi
- anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ee storio adnoddau a gwerthfawrogi meysydd gwaith/anghenion crefftau eraill.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys rhoi gwybod i'r goruchwyliwr/rheolwr, ee oedi annisgwyl, tywydd, problemau gyda danfoniadau. Bydd dysgwyr yn gwybod am y problemau sy'n gallu effeithio ar y rhaglen, gan gynnwys:

- problemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – ee camglywed cyfarwyddiadau, camddehongli gwybodaeth y gwneuthurwr, gwybodaeth anghywir
- problemau sy'n deillio o adnoddau – ee anaddas, wedi'u difrodi, anghywir, nifer
- problemau gyda dulliau gweithio – ee storio anghywir, camau anghywir (ee symud a thrin anghywir), defnyddio cyfarpar yn anghywir.

**Deilliant 6**

**6.1** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r mathau o raglenni, gan gynnwys:

- siartiau cynnydd ac amserlenni – ee rhaglenni gwaith, siartiau bar, siartiau Gantt.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio i derfynau amser ac amseroedd penodol, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar rannau eraill o'r rhaglen.

## Deilliant dysgu

**7. Cydymffurfio â'r wybodaeth am adnoddau galwedigaethol a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r cyfarwyddiadau gofynnol**

## Meini Prawf

**7.1** Sgiliau gwaith i symud, lleoli, storio, cael a/neu ddefnyddio cymhorthion codi a thechnegau codi cinetig

**7.2** Symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol i fodloni gwybodaeth am gynnyrch a gofynion y sefydliad sy'n ymwneud ag o leiaf tri o'r canlynol: deunydd ar ffurf dalennau, deunydd rhydd, deunydd mewn bagiau neu wedi'i lapio, deunydd bregus, offer a chyfarpar, cydrannau, hylifau

# Uned 345: Gwybodaeth graidd am orchuddio lloriau

| GLH: | 50 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y grefft hon.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall sut i weithio i derfynau amser.

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd gyffredinol gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol):

- 346 Cydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith
- 347 Datblygu cysylltiadau â chwsmeriaid
- 348 Asesu a gwerthuso amgylchiadau ar gyfer gorchuddion lloriau
- 349 Asesu a pharatoi arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau
- 350 Gosod allan yn barod ar gyfer gosod gorchuddion lloriau
- 351 Paratoi a gosod haenau gwaelodol ar gyfer gorchuddion lloriau
- 352 Gosod gorchuddion lloriau tecstilau
- 353 Gosod gorchuddion lloriau gwydn
- 354 Uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau
- 355 Gosod gorchuddion lloriau pren

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Pam mae sesiynau cynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn tasg a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw, a beth maent yn ei wneud?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

#### Meini Prawf

**1.1** Gweithdrefnau’r sefydliad a ddatblygwyd ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a’u cywiro, a sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith

**1.2** Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maent yn cael eu dehongli

**1.3** Gweithdrefnau’r sefydliad o ran datrys problemau â gwybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn

**1.4** Pwysigrwydd cynnal dogfennau

### 2. Deall arferion gweithio diogel

#### Meini Prawf

**2.1** Lefel y ddealltwriaeth y mae angen i weithwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio

**2.2** Sut dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb

**2.3** Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

**2.4** Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

**2.5** Pam, pryd a sut dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

**2.6** Sut mae cydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol cyfredol

### 3. Deall sut mae lleihau’r risg o ddifrod

#### Meini Prawf

**3.1** Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu

**3.2** Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut mae gwneud hynny

## 4. Deall gweithio yn ôl terfynau amser

### Meini Prawf

**4.1** Sut mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn cyflawni'r rhaglen o fewn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau'r sefydliad a'u nodweddion a'u defnyddiau, gan gynnwys sut mae cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgyrsiau blwch offer, cynefino â'r safle. Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau'r sefydliad sydd ar waith i roi gwybod am broblemau gyda gwybodaeth amhriodol neu anghywir ac adnoddau anaddas a'u datrys. Bydd dysgwyr yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith yn y sefydliad.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau (cynllun llawr), manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, gwybodaeth gwneuthurwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o wybodaeth electronig, gan gynnwys canllawiau'r gwneuthurwr a chardiau/taflenni gwaith.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi a sut gellir atal hyn. Byddant yn deall pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gyda gwybodaeth, er enghraifft taflenni/cardiau gwaith anghywir, deunyddiau a niferoedd anghywir.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw llenwi dogfennau yn gywir, gan gynnwys: taflenni/cardiau gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau, taflenni amser.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth, diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio: Rheoliadau adeiladu; Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; Rheoliadau Codi a Chario; Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith; Rheoliadau Rheoli Dirgrynu yn y Gwaith. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae rheoliadau statudol ac ACOPs yn cefnogi arferion gorau'r diwydiant mewn perthynas â pharatoi islawr, gwrthsefyll llithro a lloriau diogelwch.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol wrth ymdrin â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau, nodi a rhoi gwybod am ddeunyddiau yr amheuir eu bod yn cynnwys asbestos.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o gyfarpar diffodd tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, $CO_2$, ewyn, powdr), y triongl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ollyngiadau, sut mae eu hatal a sut mae eu hatgyweirio. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollyngiadau, arwyddion a sut mae cau yr ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf ac adrodd am ddamweiniau ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys/palisau dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle – gan gynnwys agor a chloi
- cwmni – gan gynnwys mewngofnodi, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr – gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol.

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar safle.

**2.4** Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu nodi swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn annedd ddomestig, gan gynnwys sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a llesiant. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a RIDDOR ar gyfer digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio gweithdrefnau adrodd a'r dulliau o gofnodi mân ddamweiniau a damweiniau fu bron â digwydd yn y llyfr cofnodi (papur ac electronig).

**2.5** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw PPE, RPE ac LEV yn gywir, gan gynnwys gwybodaeth am sbectolau effaith uchel, gogls, het galed, siacedi llachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profion ffitio'r wyneb) a menig pwrpasol.

**2.6** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan

gynnwys: cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP); ailgylchu; ailddefnyddio; gwastraff wedi'i ddidoli.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod ar adeiladau dan gontract (masnachol a chyhoeddus) ac mewn anheddau domestig, rhag gweithgareddau gwaith cyffredinol, galwedigaethau eraill, amodau'r tywydd, gorchudd dros dro, newid trefn y gwaith i ddiogelu gwaith yn well, rhoi gofal a sylw i fanylion wrth osod, defnyddio gorchuddion llwch a diogelwyr deunyddiau, rhwystrau ffisegol ac arwyddion.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gwaredu gwastraff (yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys sgipiau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

**Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau, cyfarpar a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen sy'n ofynnol o fewn y rhaglen, a pham mae angen cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael yn achosi difrod i ddeunyddiau, argaeledd deunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, rhaglen waith (ffurfiol ac anffurfiol), enw da a'r goblygiadau o ran crefftau eraill.

# Uned 346: Cydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith

| **GLH:** | 25 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae’r uned hon yn ymwneud â dehongli a chyfleu gwybodaeth ar gyfer prosiectau gorchuddio lloriau, dewis deunyddiau, cydrannau a chyfarpar, a chydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith gorchuddio lloriau. Mae’n ymdrin â’r ddealltwriaeth, yr wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i gydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith a chyflawni rôl oruchwyliol.

Ar ôl cwblhau’r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae cyfleu rhaglenni gwaith i amrywiaeth o randdeiliaid
- deall sut mae trefnu a chydlynu’r gwaith o osod gorchuddion lloriau
- cydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith.

Gellir cyflwyno dysgwyr i’r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Pa wybodaeth sydd ei hangen arnaf cyn dyrannu gwaith?
- Sut fydda i’n gwybod sut mae cadw golwg ar ddeunyddiau?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut mae cyfleu rhaglenni gwaith i amrywiaeth o randdeiliaid

## Meini Prawf

**1.1** Gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith

**1.2** Trefniadaeth y prosiect a systemau cyfathrebu

### 2. Deall sut mae trefnu a chydlynu'r gwaith o osod gorchuddion lloriau

## Meini Prawf

**2.1** Cynllunio a monitro'r defnydd o adnoddau

**2.2** Trefnu'r man gwaith

**2.3** Cofnodi amgylchiadau annisgwyl sy'n effeithio ar weithrediadau gwaith

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall yr wybodaeth allweddol sydd ei hangen wrth gydlynu gwaith gorchuddio lloriau gan gynnwys ei gwmpas, amserlenni (dechrau, hyd, gorffen), dulliau gweithio a pheryglon (RAMS), ardal waith ddynodedig, a'r amrywiaeth o randdeiliaid yr effeithir arnynt gan gynnwys goruchwyliwr, aelodau'r tîm, crefftau eraill, cwsmeriaid.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw darparu gwybodaeth gan ddilyn polisïau'r sefydliad a'r cytundeb yn unig ac o fewn terfynau eu hawdurdod eu hunain (gan gynnwys costau, manylion cyflenwyr).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dehongli gwybodaeth i ddyrannu gwaith, gan gynnwys taflenni/cardiau gwaith, rhaglenni gwaith a manylebau.

Bydd dysgwyr yn deall yr angen am wybodaeth i drefnu gweithrediadau gwaith o ran mynediad cyfyngedig, oriau gwaith i darfu cyn lleied â phosibl ar anghenion cwsmeriaid preifat a masnachol (oriau gwaith gwrthgymdeithasol), cliriad diogelwch ar gyfer ardaloedd cyfyngedig a defnyddio trwyddedau i weithio.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall gwahanol ddulliau cyfathrebu a'u defnyddiau, gan gynnwys manteision ac anfanteision mewn perthynas â chydlynu'r rhaglen waith.

Dulliau:

- llafar (wyneb yn wyneb (sgyrsiau blwch offer, sesiynau briffio), dros y ffôn)
- ysgrifenedig (cyfarwyddiadau, taflenni/cardiau gwaith, RAMS, amcangyfrifon, dyfynbrisiau)

- electronig (cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, negeseuon testun, apiau arbenigol/cyffredinol)
- gweledol (cynlluniau, siartiau, lluniadau, arwyddion)

Bydd dysgwyr yn deall sut mae sesiynau briffio tîm yn sicrhau llinellau cyfathrebu clir rhwng timau, yn lleihau tarfu ar lif gwaith ac yn creu cydlyniant rhwng timau.

Bydd dysgwyr yn gwybod y rhesymau dros ddiffyg cyfathrebu â rhanddeiliaid a'r technegau ar gyfer datrys y rhain o fewn terfynau eu hawdurdod eu hunain.

Rhesymau:
- diffyg eglurder neu ddealltwriaeth (cyfarwyddiadau, amserlenni, manyleb)
- diffyg ymateb i geisiadau/ymholiadau
- gosod (amseroldeb, ansawdd)
- cynhyrchion (namau gweithgynhyrchwyr, dewis anghywir)
- manwerthwr/cyflenwr (oedi, danfoniadau anghywir)
- amcangyfrifon vs dyfynbrisiau.

Technegau:
- cynnal deialog agored
- bod yn agored, yn glir ac yn dryloyw, defnyddio iaith glir
- negodi (pawb ar eu hennill, ennill-colli, cyfaddawdu).

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cyfathrebu da mewn perthynas â chylch bywyd y prosiect.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall yr ystyriaethau wrth gynllunio, monitro a dyrannu adnoddau:
- tracio, lleoliad ac at be ddefnydd y mae'r deunyddiau'n cael eu dyrannu
- rhestr adnoddau
- defnyddio cyflenwyr dynodedig
- systemau archebu
- lleoliad a dulliau storio deunyddiau
- Defnyddio deunyddiau darfodus/lle mae amser yn bwysig yn y drefn cyntaf i mewn cyntaf allan (FIFO) (gan gynnwys adlynion, cyfansoddion llyfnhau).

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall sut mae trefnu'r ardal waith, gan gynnwys:
- storio
- ardal weithio
- peiriannau a chyfarpar
- gwasanaethau dros dro
- mynediad
- diogelwch
- cyfleusterau lles.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal amgylchedd gwaith glân a diogel, gan gynnwys diogelu eraill rhag y gwaith sy'n cael ei wneud, defnyddio sgipiau

dynodedig a sut mae gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau statudol perthnasol ac ACOPs.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau'r sefydliad ac ACOPs mewn perthynas â chynnal a chadw peiriannau a chyfarpar.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cofnodi a chyfleu unrhyw amgylchiadau heb eu cynllunio (contract (masnachol, cyhoeddus) a domestig), yn ystod gweithrediadau gwaith i randdeiliaid yr effeithir arnynt, gan gynnwys:
- dodrefn y meddiannydd
- amodau amgylcheddol a gwaith (parodrwydd safle)
- mynediad diogel i bob eiddo ac ystafell
- tresmasu (staff heb awdurdod yn mynd i'r ardal waith)
- cymdogion (oriau gwaith, cwynion ynghylch sŵn).

## Deilliant dysgu

### 3. Cydlynu a threfnu gweithrediadau gwaith

## Meini Prawf

**3.1** Darparu gwybodaeth, fel yr awdurdodir, i wneud y gwaith

**3.2** Cytuno ar raglenni gwaith a dulliau gweithio gyda'r gweithlu

**3.3** Cofnodi ac adrodd ar drefn y prosiect a'r systemau cyfathrebu sydd wedi cael eu rhoi ar waith

**3.4** Cofnodi a rhoi gwybod am unrhyw ddiffyg cyfathrebu a'r camau a gymerwyd i'w datrys yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

**3.5** Trefnu a chydlynu gwaith gyda galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith o fewn lefelau awdurdodi a bennwyd ymlaen llaw

**3.6** Sicrhau bod adnoddau'n cael eu trefnu a'u dyrannu

**3.7** Rheoli'r ardal waith ddynodedig, gan gynnwys adnoddau, taclusrwydd y safle a gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â gofynion cyfredol y sefydliad a gofynion cyfredol rheoliadol o fewn lefelau awdurdodi a bennwyd ymlaen llaw

**3.8** Nodi, cofnodi a rhoi gwybod am unrhyw amgylchiadau annisgwyl sy'n ymwneud ag o leiaf **pump** o'r canlynol:
- meddianwyr
- amgylchedd
- mynedfa i gerbydau

- peryglon
- tresmasu
- cymdogion agos
- mynediad cyhoeddus
- amgylchiadau yn y gweithle
- iechyd, diogelwch a lles
- rheoliadau statudol a chyfyngiadau
- codau ymarfer

**3.9** Rheoli/goruchwylio'r ardal waith ddynodedig at ddibenion gweithredol ar gyfer o leiaf **pump** o'r canlynol:

- storio diogel
- gwaith dros dro
- ystyriaethau amgylcheddol
- peiriannau a/neu gyfarpar
- gwasanaethau dros dro
- mynedfeydd ac allanfeydd
- diogelwch
- defnydd parhaus gan feddianwyr
- cyfleusterau lles

**3.10** Trefnu bod deunyddiau a chyfarpar yn cael eu storio'n ddiogel a'u defnyddio'n effeithlon er mwyn eu trin, eu symud a'u gwastraffu cyn lleied â phosibl

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu darparu gwybodaeth, gan gynnwys:

- cwmpas y gwaith: rhestr lawn o'r holl dasgau sydd wedi'u cynnwys yn y contract
- pryd y bydd yn dechrau: dyddiad/amser cychwyn arfaethedig
- pa mor hir y bydd yn ei gymryd: amcangyfrif o hyd y dasg gyfan a/neu elfennau o'r gwaith a fydd yn effeithio ar y cwsmer, hynny yw, paratoi'r llawr i atal yr ardal rhag cael ei defnyddio
- pryd y bydd yn gorffen: amcangyfrif o ddyddiad/amser cwblhau'r gwaith cyfan a/neu elfennau o'r gwaith
- risgiau a pheryglon cysylltiedig (RAMS) a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**3.2** amh.

**3.3** Bydd dysgwyr yn gallu cofnodi ac adrodd ar ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir yn ystod gweithrediadau gwaith fel cofnodion cyfarfodydd, cofnodion o gyfathrebu dros y ffôn rhwng cwsmer/contractwr, contractwr/cyflenwyr.

**3.4** amh.

**3.5** Bydd dysgwyr yn gallu nodi a chytuno ar drefn gweithgareddau gwaith a chefnogi trefniadaeth y gwaith.

**3.6** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio technegau rhaglennu gwaith (tasgau dilynol ac olynol), fel dadansoddi llwybr critigol (CPA).

**3.7 –3.10**

Bydd dysgwyr yn gallu rheoli eu hardal waith eu hunain drwy drefnu'r adnoddau angenrheidiol. Bydd dysgwyr yn gallu cynnal amgylchedd gwaith glân a diogel, diogelu eraill rhag y gwaith sy'n cael ei wneud, defnyddio sgipiau dynodedig a gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau statudol perthnasol ac ACOPs.

# Uned 347: Datblygu cysylltiadau â chwsmeriaid

| GLH: | 30 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â meithrin a chynnal cysylltiadau effeithiol â chwsmeriaid. Mae'n ymdrin â'r ddealltwriaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyfathrebu â chwsmeriaid newydd a phresennol, nodi anghenion cwsmeriaid a chynnal cysylltiadau parhaus.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall gofynion cyfathrebu ar gyfer datblygu cysylltiadau â chwsmeriaid
- deall anghenion cwsmeriaid a sut i ddatblygu cysylltiadau parhaus
- cyfathrebu â chwsmeriaid
- bodloni disgwyliadau cwsmeriaid
- cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Pam mae cynnal cysylltiad â chwsmeriaid yn bwysig?
- Sut ddylwn i gyfathrebu â chwsmeriaid?
- Sut fydda i'n delio â chwynion cwsmeriaid?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall gofynion cyfathrebu ar gyfer datblygu cysylltiadau â chwsmeriaid

## Meini Prawf

**1.1** Dulliau cyfathrebu a sut mae eu defnyddio

**1.2** Technegau datrys gwrthdaro a gwrthdaro â chwsmeriaid

### 2. Deall anghenion cwsmeriaid a sut i ddatblygu cysylltiadau parhaus

## Meini Prawf

**2.1** Technegau ar gyfer nodi anghenion cwsmeriaid a meithrin hyder cwsmeriaid

**2.2** Dulliau cadw cwsmeriaid a goblygiadau ehangu gwasanaeth

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am wahanol ddulliau cyfathrebu (llafar, ysgrifenedig, electronig, gweledol) ac yn deall pa mor addas yw eu defnyddio drwy gydol y broses osod mewn perthynas â'r canlynol:

- sefydlu a chynnal cyswllt â chwsmeriaid (contract (masnachol, cyhoeddus) a domestig)
- pwrpas a'r math o wybodaeth (ffurfiol, anffurfiol, cytundebol, ariannol).

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol gyda chwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid.

Bydd dysgwyr yn deall pwrpas cyswllt dilynol, gan gynnwys trefnu i archwilio ac ymateb i adborth gan gwsmeriaid.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n achosi gwrthdaro rhwng cwsmeriaid, sut mae modd eu hatal a'r technegau ar gyfer datrys y rhain ohonynt eu hunain.

Materion yn ymwneud â:

- gosod (amseroldeb, ansawdd)
- cynhyrchion (namau gweithgynhyrchwyr, dewis anghywir)
- manwerthwr/cyflenwr (oedi, danfoniadau anghywir)
- cyfathrebu (gwybodaeth aneglur, anamserol)
- ymddygiad personol (iaith, cod gwisg, agwedd, diffyg proffesiynoldeb).

Technegau:

- cynnal deialog agored
- bod yn dryloyw ac yn onest
- negodi (pawb ar eu hennill, ennill-colli, cyfaddawdu).

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am gwynion cwsmeriaid a hierarchaeth awdurdod.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o ganfod anghenion cwsmeriaid, gan gynnwys arolygon cyn gosod, holiaduron, trafodaethau wyneb yn wyneb a'u manteision.

Bydd dysgwyr yn deall y technegau ar gyfer meithrin hyder cwsmeriaid, gan gynnwys:

- dangos parch
- gosod, rheoli a bodloni disgwyliadau
- addasu i anghenion cwsmeriaid
- cwblhau gwaith o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt
- dibynadwyedd (gweithio yn unol â'r amserlen a chynnal safonau ansawdd)
- bodloni codau ymarfer a nodir yn safonau Prydeinig gorchuddion lloriau (BS 5325, BS 8201, BS 8203)
- atebolrwydd (cymryd perchnogaeth dros waith a phroblemau)
- ymatebolrwydd (delio ag ymholiadau, ceisiadau a phroblemau cwsmeriaid yn brydlon)
- cod gwisg priodol
- cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnyrch a gwasanaethau'r sefydliad.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am bwysigrwydd cadw cwsmeriaid presennol a denu cwsmeriaid newydd, a'r dulliau o wneud hynny.

Dulliau:

- gweithredu yn dilyn adolygiadau gan gwsmeriaid, arolygon boddhad
- cynlluniau teyrngarwch
- hysbysebu
- hyrwyddo cynnyrch a disgowntiau
- ehangu gwasanaethau a chynnyrch.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw goblygiadau newid neu ehangu gwasanaethau a chynhyrchion sy'n cael eu darparu a'u gosod i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid (gan gynnwys uwchsgilio'r gweithlu, cost adnoddau, offer a chyfarpar) a'r rhanddeiliaid dan sylw.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw goblygiadau cost dod â chwsmeriaid newydd i mewn yn hytrach na chadw cwsmeriaid presennol.

## Deilliant dysgu

### 3. Cyfathrebu â chwsmeriaid

## Meini Prawf

**3.1** Esbonio cynhyrchion a gwasanaethau eich sefydliad i gwsmeriaid

**3.2** Esbonio cyfyngiadau'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y mae eich sefydliad yn eu cynnig i gwsmeriaid

**3.3** Rheoli disgwyliadau cwsmeriaid drwy gynnig cynnyrch neu wasanaeth amgen pan fo angen

**3.4** Cyfathrebu â'ch cwsmeriaid i feithrin a chynnal eu hyder yng nghynhyrchion a gwasanaethau eich sefydliad

### 4. Bodloni disgwyliadau cwsmeriaid

## Meini Prawf

**4.1** Amcangyfrif faint o amser sydd ei angen arnoch i ddelio â chwsmeriaid i ddiwallu eu hanghenion a'u disgwyliadau

**4.2** Trafod disgwyliadau cwsmeriaid â nhw ac esbonio sut mae'r rhain yn cymharu â chynhyrchion a gwasanaethau eich sefydliad

**4.3** Rhoi cymorth a gwybodaeth ychwanegol i gwsmeriaid i ymateb i'w cwestiynau a'u sylwadau am wasanaethau neu gynhyrchion eich sefydliad

**4.4** Rhoi sicrwydd i gwsmeriaid eich bod yn gwneud popeth o fewn eich gallu i gadw addewidion eich sefydliad iddynt

**4.5** Nodi gwrthdaro rhwng disgwyliadau cwsmeriaid a chynhyrchion a gwasanaethau eich sefydliad

**4.6** Datrys unrhyw anawsterau o ran bodloni disgwyliadau cwsmeriaid

**4.7** Cyfeirio unrhyw anawsterau na allwch eu datrys, neu sydd y tu hwnt i lefel eich awdurdod, at gydweithwyr

### 5. Cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid

## Meini Prawf

**5.1** Rhannu adborth a gafwyd gan eich cwsmeriaid â chydweithwyr

**5.2** Nodi ffyrdd newydd o helpu eich cwsmeriaid ar sail yr adborth maent wedi'i roi i chi

**5.3** Nodi gwerth ychwanegol y gallai eich sefydliad ei gynnig i gwsmeriaid hirdymor

**5.4** Dilyn y codau ymarfer a’r polisïau cyfreithiol a sefydliadol sy’n berthnasol i’ch rôl a’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnal

# Uned 348: Asesu a gwerthuso amgylchiadau ar gyfer gorchuddion lloriau

| GLH: | 20 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymdrin â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i asesu a gwerthuso isloriau cyn paratoi arwynebau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth all fynd o'i le os ydw i'n gosod gorchudd llawr ar islawr heb ei brofi?
- Sut ydw i'n profi isloriau?
- Pa offer ydw i'n eu defnyddio i wirio lefelau lleithder?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

## Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

## Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau ac yn deall eu nodweddion a'u haddasrwydd wrth eu defnyddio mewn perthynas ag asesu a gwerthuso gwahanol fathau o isloriau.

Adnoddau:
- ymyl syth
- cyfarpar lefelu (laser, lefel saer)
- tortsh/golau archwilio
- cyfarpar mesur (tâp, laser)
- blwch hygromedr (pecyn profi lleithder cymharol)
- mesurydd profi neu offer cyfatebol
- pecyn profi calsiwm carbid (CM)
- thermomedr a hygromedr.

Mae'r mathau o isloriau yn cynnwys:
- solet (concrit, paneli concrit wedi'i rag-gastio, concrit wedi'i fflotio â phŵer, sgrîd tywod a sment, sgrîd calsiwm sylffad, asffalt)

- crog (byrddau llawr pren, Pren Fflawiau Cyfeiriedig (OSB), pren haenog)
- llawr mynediad uchel (islawr metel)
- teils ceramig.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddiffygion nodweddiadol cyfarpar lefelu a mesur lleithder a dulliau ar gyfer cywiro (gwiriadau cywirdeb a graddnodi).

Bydd dysgwyr yn deall defnyddiau a chyfyngiadau adnoddau (gan gynnwys oes batri, tymheredd, dwysedd deunyddiau, hyd profion).

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall pryd i ddefnyddio gwahanol adnoddau a pha mor addas ydynt o ran asesu a gwerthuso gwahanol fathau o isloriau yn 1.1. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dilyn argymhellion, cyfarwyddiadau a chanllawiau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, gan gynnwys cyfarpar diffygiol cyn ac ar ôl eu defnyddio.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod am sefyllfaoedd lle mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol wrth asesu mathau o isloriau fel deunydd peryglus.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau'r sefydliad a ddefnyddir i ddewis adnoddau a sut mae defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau:

- taflenni/cardiau gwaith
- amserlenni
- manylebau
- lluniadau (cynlluniau llawr)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig ag asesu a gwerthuso arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau a'r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:

- anafiadau cyhyrysgerbydol
- dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol
- toriadau a chrafiadau
- technegau codi a chario
- Taflenni data COSHH.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn RAMS i wneud y gwaith yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio PPE/RPE (padiau pen-glin, menig, masgiau, trowsus gwaith) ac LEV.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu a gwerthuso arwynebau isloriau ac ystyried goblygiadau presenoldeb gwres dan y llawr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae pennu cyflwr a chyfansoddiad arwynebau isloriau ar ffurf gwiriadau gweledol a chyffyrddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y prosesau ar gyfer asesu a gwerthuso arwynebau cyn eu gosod, gan gynnwys defnyddio:

- cyfarpar mesur lleithder
- synhwyrau
- cyfarpar lefelu (laser, lefel saer).

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dehongli data profion ac yn ystyried sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio i gynllunio'r gwaith o baratoi arwynebau isloriau cyn gosod gorchuddion lloriau gwahanol.

Bydd dysgwyr yn deall goblygiadau canlyniadau profion mewn perthynas â chynlluniau gwaith a disgwyliadau cwsmeriaid a phwysigrwydd cofnodi a chyfleu gwybodaeth.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth asesu a gwerthuso arwynebau isloriau.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw cyfarpar i sicrhau y bydd yn gywir wrth ei ddefnyddio yn y dyfodol a sut dylid glanhau a chynnal a chadw cyfarpar ar ôl ei ddefnyddio.

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol i gynnwys:

- gwirio cywirdeb (ffisegol, graddnodi)
- glanhau
- storio.

Offer/cyfarpar i gynnwys:

- cyfarpar mesur (tâp, laser)
- cyfarpar mesur lleithder
- driliau pŵer
- cyfarpar lefelu (laser, lefel saer).

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i osod prawf, darllen a chofnodi

**3.2** Defnyddio cyfarpar profi a chofnodi a chyfarpar ategol

**3.3** Cynnal profion yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio ar yr arwynebau llawr canlynol:

- arwynebau smentaidd

- sgridiau perchnogol
- arwynebau pren
- isloriau presennol

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1–3.3**

Bydd dysgwyr yn gallu asesu a gwerthuso mathau o isloriau i fodloni safonau'r diwydiant.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir), RAMS, rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

# Uned 349: Asesu a pharatoi arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau

| GLH: | 85 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae’r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae’n ymdrin â’r sgiliau, yr wybodaeth a’r ddealltwriaeth sydd eu hangen i asesu a pharatoi amrywiaeth o arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau.

Ar ôl cwblhau’r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i’r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Sut ydw i’n gwybod pryd i ddefnyddio cyfansoddion llyfnhau?
- Pam mae angen i mi baratoi arwyneb islawr?
- Sut ydw i’n paratoi arwyneb islawr ar gyfer gorchuddion lloriau?
- Beth yw’r gwahanol fathau o arwynebau isloriau?
- Pa ddiffygion fydda i’n dod ar eu traws wrth weithio ar islawr?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

## Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

## Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau ac yn deall nodweddion deunyddiau a'u haddasrwydd wrth eu defnyddio mewn perthynas ag asesu a pharatoi gwahanol fathau o isloriau.

Adnoddau:
- cyfarpar mesur lleithder
- pilenni atal lleithder (DPM) – hylif a dalenni
- atalyddion anwedd (MVS)
- tynwyr halogion (diseimyddion)
- paent preimio isloriau
- cyfansoddion llyfnhau (cymysgedd dŵr, cymysgedd latecs)
- cyfansoddion atgyweirio (pren a sment)
- haenau gwaelodol/rhynghaenau wedi'u saernïo (gorchuddion pren haenog)
- tynwyr halogion
- offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol.

Mathau o isloriau:

- solet (concrit, paneli concrit wedi'i rag-gastio, concrit wedi'i fflotio â phŵer, sgrîd tywod a sment, sgrîd calsiwm sylffad, asffalt)
- crog (byrddau llawr pren, OSB, pren haenog)
- llawr mynediad uchel (islawr metel)
- teils ceramig
- teils finyl.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddiffygion nodweddiadol a'r hyn sy'n achosi diffygion sy'n gallu effeithio ar adnoddau a mathau o isloriau, gan gynnwys:

- graddnodi cyfarpar mesur lleithder yn anghywir
- gormodedd o leithder yn yr is-lawr
- pryfed pren yn bla mewn pren
- pydredd gwlyb a sych mewn pren
- amodau atmosfferig fel tymheredd, lleithder, gormod o leithder ar yr arwyneb
- arferion gweithio gwael gan gynnwys:
    - peidio â thynnu gorchuddion lloriau presennol yn gywir
    - paratoi isloriau'n anghywir
    - peidio â chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gywiro diffygion, hynny yw:

- graddnodi cyfarpar mesur lleithder yn gywir
- defnyddio DPM priodol
- triniaeth gemegol a/neu newid cydrannau
- sicrhau bod amodau atmosfferig yn iawn cyn dechrau paratoi
- tynnu gorchuddion lloriau presennol yn gywir
- paratoi'r islawr yn ddigonol (ysgraffinio/llifanu gronynnau a dŵr ar wyneb sgrîd, glanhau, diseimio)
- cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn deall defnyddiau a chyfyngiadau adnoddau a'r angen i wahanu a gwaredu gwastraff yn unol â rheoliadau amgylcheddol.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall pryd i ddefnyddio gwahanol adnoddau a pha mor addas ydynt o ran asesu a pharatoi gwahanol fathau o isloriau yn 1.1.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dilyn argymhellion, cyfarwyddiadau a chanllawiau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, gan gynnwys deunyddiau diffygiol cyn ac ar ôl eu defnyddio.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod am sefyllfaoedd lle mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol wrth baratoi mathau o isloriau fel deunydd peryglus, ac yn deall y gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau'r sefydliad a ddefnyddir i ddewis a chyfrifo adnoddau a sut mae defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau:

- taflenni/cardiau gwaith
- amserlenni
- manylebau
- lluniadau (cynlluniau llawr)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo niferoedd gan gynnwys metrau llinol, metrau sgwâr a chanrannau gwastraff wrth asesu a pharatoi arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig ag asesu a pharatoi arwynebau isloriau ar gyfer gorchuddion lloriau a'r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:

- anafiadau cyhyrysgerbydol
- dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol
- toriadau a chrafiadau
- technegau codi a chario
- Taflenni data COSHH - dewis a defnyddio offer yn ddiogel.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn RAMS i wneud y gwaith yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio PPE/RPE (padiau pen-glin, menig, masgiau, trowsus gwaith), LEV a gorchuddion gwarchodol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae tynnu gorchuddion lloriau presennol (gwydn, tecstilau a phren), paratoi isloriau presennol ac ystyried goblygiadau presenoldeb gwres dan y llawr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae pennu cyflwr a chyfansoddiad arwynebau isloriau ar ffurf gwiriadau gweledol a chyffyrddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw gwirio am gynnwys lleithder, yn enwedig mewn adeiladau o arwyddocâd hanesyddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y prosesau paratoi ar gyfer cael arwynebau'n barod cyn gosod, gan gynnwys defnyddio:

- paent preimio
- DPM (hylif a dalen)
- haenau gwaelodol/rhyngosodiadau wedi'u saernïo (dalenni pren haenog, y graddau a'r trwch a argymhellir)
- cyfansoddion llyfnhau
- cyfansoddion atgyweirio.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o gyfarpar mesur lleithder a phryd dylid eu defnyddio.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo faint o ddeunyddiau sydd eu hangen i baratoi arwynebau isloriau (pren haenog, DPM, paent preimio).

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr wrth gymysgu deunyddiau a defnyddio'r technegau gosod priodol.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd diogelu'r ardal waith wrth baratoi isloriau mewn perthynas ag addurniadau presennol, yr amgylchedd cyfagos, cydweithwyr a chwsmeriaid, a'r cynnyrch gorffenedig.

Bydd dysgwyr yn deall pwrpas asesu a pharatoi islawr cyn gosod gorchuddion lloriau a goblygiadau asesu anghywir a pharatoi anghywir.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth asesu a pharatoi isloriau.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw offer pŵer llaw a chludadwy a chyfarpar ategol i'w defnyddio yn y dyfodol.

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol i gynnwys:

- gwirio cywirdeb (ffisegol, graddnodi)
- gwiriadau ymlaen llaw (gweledol, profion PAT)
- glanhau
- storio.

Offer/cyfarpar i gynnwys:

- offer paratoi arwynebau: peiriannau stripio lloriau, ysgraffiniwr concrit, sandiwr disg, sgrafell law, carreg hogi
- cyfarpar atal llwch: sugnydd llwch, system LEV
- cyfarpar cymysgu a gosod: cymysgydd padl, trywel sgridio, cribin sgridio, rholer pigog, rholeri a brwshys
- cyfarpar profi lleithder a'r amgylchedd: pecyn chwilio lleithder cymharol yn y fan a'r lle, bocs hygromedr
- offer torri a gosod: llifiau, drylliau hoelion, driliau pŵer.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

**3.1** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer, a chyfarpar ategol

**3.2** Dangos sgiliau gwaith i stripio, asesu, sgrafellu, glanhau, mesur

**3.3** Asesu a pharatoi arwynebau isloriau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio sy'n ymwneud â'r canlynol:

- tynnu gorchuddion lloriau presennol

- cael gwared ar halogion arwyneb
- defnyddio cyfansoddion atgyweirio
- defnyddio paent preimio
- defnyddio cyfansoddion llyfnhau neu haenau gwaelodol wedi'u saernïo

**3.4** Dangos sgiliau gwaith i fesur, meintoli, marcio allan, sgrafellu, crafu, llyfnhau, cyflyru, cymysgu, defnyddio, gorffen, lleoli, rhoi'n sownd

**3.5** Paratoi arwynebau i gael gorchuddion lloriau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio ar gyfer y canlynol:

- arwynebau smentaidd
- sgridiau perchnogol
- arwynebau pren
- arwynebau llawr anwastad
- lloriau crog
- grisiau

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gosod a defnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol yn ddiogel a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da i'w defnyddio yn y dyfodol.

Offer/cyfarpar i gynnwys:

- offer paratoi arwynebau: peiriannau stripio lloriau, ysgraffiniwr concrit, sandiwr disg, sgrafell law, carreg hogi
- cyfarpar atal llwch: sugnydd llwch, system LEV
- cyfarpar cymysgu a gosod: cymysgydd padl, trywel sgridio, cribin sgridio, rholer pigog, rholeri a brwshys
- cyfarpar profi lleithder a'r amgylchedd: pecyn chwilio lleithder cymharol yn y fan a'r lle, bocs hygromedr
- offer torri a gosod: llifiau, drylliau hoelion, driliau pŵer.

**3.2–3.5**

Bydd dysgwyr yn gallu tynnu gorchuddion lloriau presennol (gwydn, tecstilau a phren), cael gwared ar halogyddion o isloriau a chyflawni gwiriadau priodol i asesu cyflwr yr islawr.

Bydd dysgwyr yn gallu cyflawni'r camau paratoi, gan gynnwys:

- diogelu'r ardal o gwmpas
- gwirio lefelau lleithder a chadernid yr islawr
- mesur arwynebedd islawr yn gywir gan ddefnyddio offer a thechnegau priodol
- cyfrifo'r deunyddiau sydd eu hangen ar sail arwynebedd arwyneb, dyfnder a manylebau cynnyrch
- gosod a marcio allan, a thorri haenau gwaelodol wedi'u saernïo/gorchuddion pren haenog i ardaloedd gwaith, ffiniau a lleoliad gosodiadau

- sgrafellu arwynebau i gael gwared ar weddillion, adlynion neu ddeunyddiau rhydd
- crafu arwynebau i sicrhau eu bod yn arw neu'n llyfn yn ôl yr angen gan ddefnyddio dulliau mecanyddol neu â llaw
- llyfnhau mannau anwastad gan ddefnyddio offer lefelu, cyfarpar sandio neu gyfansoddion
- cyflawni gwiriadau terfynol o isloriau a chyfanrwydd arwynebau
- cymysgu cyfansoddion atgyweirio a/neu lyfnhau yn gywir gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- rhoi cyfansoddion, paent preimio neu adlynion yn wastad ac i'r trwch cywir
- gorffen arwynebau i'r safon ofynnol, gan sicrhau eu bod yn barod i osod gorchuddion lloriau
- lleoli haenau gwaelodol wedi'u saernïo/haenau pren haenog neu gydrannau yn unol â chynlluniau neu fanylebau'r cynllun
- rhoi deunyddiau'n sownd gan ddefnyddio gosodiadau priodol (adlynion, mecanyddol, â llaw) gan sicrhau sefydlogrwydd ac aliniad.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio PPE/RPE yn gywir), RAMS, rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

**3.3 At ddibenion asesu yn unig,** mae dull samplu wedi cael ei ddefnyddio yn y prosiect ymarferol lle bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar asesu a pharatoi arwynebau isloriau sy'n ymwneud ag o leiaf **tri** o'r canlynol:

- tynnu gorchuddion lloriau presennol
- cael gwared ar halogion arwyneb
- defnyddio cyfansoddion atgyweirio
- defnyddio paent preimio
- defnyddio cyfansoddion llyfnhau neu haenau gwaelodol wedi'u saernïo.

**3.5 At ddibenion asesu yn unig,** mae dull samplu wedi cael ei ddefnyddio yn y prosiect ymarferol lle bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar baratoi arwynebau ar gyfer gorchuddion lloriau yn unol â chyfarwyddiadau gweithio ar gyfer o leiaf **dau** o'r canlynol:

- arwynebau smentaidd
- sgridiau perchnogol
- arwynebau pren
- arwynebau llawr anwastad
- lloriau crog
- grisiau.

# Uned 350: Gosod allan yn barod ar gyfer gosod gorchuddion lloriau

| **GLH:** | 55 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae’r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae’n ymdrin â’r sgiliau, yr wybodaeth a’r ddealltwriaeth sy’n ofynnol ar gyfer gosod allan yn barod ar gyfer gosod gorchuddion lloriau.

Ar ôl cwblhau’r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i’r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Sut ydw i’n gwybod ble i ddechrau wrth osod llawr newydd?
- Beth fyddai’n digwydd pe bawn i’n gosod llawr heb fesur na marcio allan yn gyntaf?
- Beth sydd angen i mi feddwl amdanynt wrth osod gorchudd llawr patrymog?
- Pa offer fydd eu hangen arnaf i osod allan ar gyfer gorchudd llawr?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

## Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio’r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau’r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau’r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

## Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau sydd eu hangen i osod allan gwahanol fathau o orchuddion lloriau ac yn deall eu nodweddion a’u haddasrwydd ar gyfer mesur a marcio allan yn gywir.

Mathau o orchuddion lloriau:
- tecstilau (carped, teils carped)
- gwydn (finyl, linoliwm, rwber)
- pren (laminiad, pren solet a bloc).

Adnoddau gosod allan:
- offer mesur (tapiau mesur, laserau mesur, mesuryddion dur)
- offer marcio (llinellau sialc, pensiliau, marcwyr, sgwaryn fframio, bar ysgrifellu, cwmpas mesur)
- templedi a medryddion (ar gyfer siapiau afreolaidd neu batrymau sy’n cael eu hailadrodd)
- lefel laser
- ymylon syth

- lluniadau, systemau grid.

Ystyriaethau o ran defnyddio:

- trachywiredd a hwylustod offer
- cadernid a sefydlogrwydd y math o ddeunydd
- gweledEdd marciau ar wahanol arwynebau
- hyblygrwydd/addasadwyedd templedi neu fedryddion ar gyfer siapiau cymhleth
- cydnawsedd â mathau penodol o orchuddion lloriau (ee marcwyr nad ydynt yn barhaol ar gyfer arwynebau bregus).

Bydd dysgwyr yn gwybod beth sy’n achosi diffygion nodweddiadol sy’n gallu effeithio ar osod allan a dulliau cywiro.

Achosion a diffygion nodweddiadol:

- isloriau anwastad
- defnyddio offer gosod allan yn anghywir
- gorffeniad gwael i loriau gorffenedig.

Dulliau cywiro:

- cyfansoddion atgyweirio cyflym neu orffeniad ysgafn
- gosod allan yn gywir.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio adnoddau priodol i osod gorchuddion lloriau allan yn ddiogel ac yn effeithiol.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw’r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau dethol sy’n ymwneud â gosod allan.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau’r sefydliad a ddefnyddir i ddewis a sut mae defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau:

- taflenni/cardiau gwaith
- amserlenni
- manylebau
- lluniadau (cynlluniau llawr)
- cyfarwyddiadau’r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo niferoedd gan gynnwys metrau llinol, metrau sgwâr a chanrannau gwastraff wrth osod allan yn barod ar gyfer gosod gorchuddion lloriau.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a’r peryglon sy’n gysylltiedig â gosod allan mewn cysylltiad â gorchuddion lloriau a’r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:

- anafiadau cyhyrysgerbydol
- gorffeniadau arwyneb islawr a llwch

- dewis a defnyddio offer yn ddiogel.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn RAMS i wneud y gwaith yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio PPE/RPE (padiau pen-glin, menig, masgiau, trowsus gwaith).

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod lloriau allan ar wahanol arwynebau llawr gan ddefnyddio cyfarpar gosod allan priodol.

Bydd dysgwyr yn deall y goblygiadau a'r ystyriaethau sydd eu hangen wrth gyfrifo pwyntiau gosod allan, sythrwydd, safle uniadau, gosod ffiniau a phatrymau allan, gosod allan gan ddefnyddio sgwâr 3:4:5. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw safle a maint y toriadau, cyfeiriad y rhediad, y mannau cychwyn a gorffen.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau o osod allan gorchuddion lloriau ar ddyluniadau lloriau ar arwynebau llorweddol, goleddfol a grisiog, ardaloedd ffurfiedig a chilfwaog, deunyddiau patrymog a heb batrwm ac ysgrifellu ar waliau anwastad.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio technegau gosod ar gyfer ategolion gorffen gan gynnwys trothwyon, sgyrtins, proffiliau (capiau a chilfachau), ymylon blaen grisiau a thrimiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth osod gorchuddion lloriau allan.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw offer a chyfarpar gosod allan i sicrhau cywirdeb wrth eu defnyddio yn y dyfodol.

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw a chyfarpar ategol i gynnwys:
- gwirio cywirdeb
- glanhau
- storio.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio allan

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer, a chyfarpar gosod allan

**3.3** Gosod ardaloedd allan yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio ar gyfer gosod gorchuddion lloriau ar o leiaf **un** o'r canlynol:
- arwynebau llorweddol
- arwynebau ar oleddf
- arwynebau grisiog

- ardaloedd ffurfiedig a chilfwaog

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1–3.3**

Bydd dysgwyr yn gallu gosod allan ar gyfer amrywiaeth o orchuddion lloriau, gan gynnwys ar gyfer adeiladau dan gontract (masnachol a chyhoeddus) ac anheddau domestig.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod lloriau allan ar wahanol arwynebau lloriau gan ddefnyddio cyfarpar mesur a lefelu priodol.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio'r holl fesuriadau a phwyntiau gosod allan cyn gosod gorchudd llawr.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar gosod allan yn ddiogel, ac mewn cyflwr da i'w defnyddio yn y dyfodol.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio PPE/RPE yn gywir), RAMS, rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

# Uned 351: Paratoi a gosod haenau gwaelodol ar gyfer gorchuddion lloriau

| **GLH:** | 35 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymdrin â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i baratoi a gosod haenau gwaelodol ar gyfer gwahanol fathau o orchudd llawr.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Pam ydym ni'n defnyddio haenau gwaelodol o dan orchuddion lloriau?
- Beth allai ddigwydd os nad yw haen waelodol wedi'i gosod yn iawn?
- Pa offer neu ddeunyddiau sydd eu hangen arnaf i baratoi islawr ar gyfer haen waelodol?
- A oes angen haen waelodol ar bob math o orchudd llawr?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

### Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

### Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio i baratoi a gosod haenau gwaelodol, gan gynnwys:
- mathau o haenau gwaelodol (sbwng, rwber, ffelt, cyfuniad, polywrethan (PU)), adlynion a thapiau
- gosodiadau
- ffitiadau (crafangau, trimiau)
- offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar (gan gynnwys cyllyll, styffylwyr, tryweli, ymylon syth).

Bydd dysgwyr yn deall nodweddion a swyddogaethau gwahanol ddeunyddiau haenau gwaelodol, fel:
- inswleiddio thermol ac acwstig
- gwrthsefyll lleithder
- capasiti cynnal pwysau.

Bydd dysgwyr yn deall cyfyngiadau a manteision gwahanol fathau o haenau gwaelodol a'u cydnawsedd â mathau o orchuddion lloriau (carped, finyl, laminiad) sy'n cael eu defnyddio mewn adeiladau dan gontract (masnachol a chyhoeddus) ac mewn anheddau domestig.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod modd ailddefnyddio mathau o haenau gwaelodol (PU, ffelt gwlân) ac am yr haenau gwaelodol cynaliadwy sydd ar gael, wedi'u gweithgynhyrchu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddiffygion nodweddiadol y gwneuthurwr sy'n gallu effeithio ar haen waelodol, gan gynnwys patshys gwag ac uchel, dwysedd anghyson a dulliau cywiro.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall pryd i ddefnyddio gwahanol adnoddau a pha mor addas ydynt o ran paratoi a gosod gwahanol fathau o haenau gwaelodol ar gyfer defnydd dan gontract (masnachol a chyhoeddus) a domestig. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dilyn argymhellion, cyfarwyddiadau a chanllawiau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a deunyddiau anghywir cyn ac ar ôl eu defnyddio.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau'r sefydliad a ddefnyddir i ddewis a chyfrifo adnoddau a sut mae defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau:

- taflenni/cardiau gwaith
- amserlenni
- manylebau
- lluniadau (cynlluniau llawr)
- biliau priodweddau
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer archebu deunyddiau a rheoli stoc.

Bydd dysgwyr yn deall ystyriaethau amgylcheddol wrth dynnu hen haenau gwaelodol a haenau gwaelodol sydd wedi cael eu defnyddio.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â pharatoi a gosod haenau gwaelodol a'r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:

- anafiadau cyhyrysgerbydol
- dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol
- toriadau a chrafiadau
- technegau codi a chario
- taflenni data COSHH
- dewis a defnyddio offer yn ddiogel.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd paratoi, mesur deunyddiau a gofodau'n gywir, ac yn gwybod sut mae gosod a thorri deunyddiau yn unol â chynlluniau llawr (gan gynnwys lleoliad a maint toriadau, mannau cychwyn a gorffen).

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo faint o ddeunyddiau sydd eu hangen i baratoi a gosod haenau gwaelodol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae lleoli a gosod deunyddiau yn unol â chynllun y safle a'r ystafell, gan gynnwys aliniad a lluniadau gweithio.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau o roi deunyddiau'n sownd a gosod ffitiadau cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa wiriadau sydd angen eu gwneud i sicrhau bod yr haen waelodol yn barod ar gyfer gorchudd llawr, gan gynnwys bod yr haen waelodol i gyd yn wastad, wedi'i rhoi'n sownd ac nad oes unrhyw falurion na thorion arni.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth baratoi a gosod haenau gwaelodol.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw offer pŵer llaw a chludadwy a chyfarpar i'w defnyddio yn y dyfodol, gan gynnwys:

Offer a chyfarpar:
- offer mesur (tapiau mesur, prennau mesur)
- offer torri (cyllyll, gwelleifiau)
- offer gosod (morthwylion, morthwylion styffylu)
- offer marcio (llinellau sialc, pensiliau)
- offer pŵer (styffylwyr trydan)
- cyfarpar ategol (tryweli, rholeri).

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol i gynnwys:
- gwiriadau ymlaen llaw (gweledol, profion PAT)
- glanhau
- storio.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio allan, torri, lleoli, gosod, rhoi'n sownd

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer, a chyfarpar ategol

**3.3** Paratoi a gosod haenau gwaelodol a ffitiadau cysylltiedig yn unol â chyfarwyddiadau gweithio

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1–3.3**

Bydd dysgwyr yn gallu paratoi a gosod haenau gwaelodol a ffitiadau cysylltiedig yn unol â chyfarwyddiadau gweithio a safonau'r diwydiant:

- mesur deunyddiau a gofodau yn gywir
- rhoi deunyddiau yn eu lle yn glir ac yn gywir ar sail mesuriadau a chynlluniau gosod
- torri deunyddiau'n ddiogel ac yn fanwl gywir gan ddefnyddio offer torri addas
- lleoli deunyddiau'n gywir yn unol ag amgylchiadau'r safle, aliniad a lluniadau gweithio
- gosod deunyddiau gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli'n ddiogel ac yn gyfwyneb gyda chyn lleied â phosibl o wastraff.
- rhoi deunyddiau'n sownd gan ddefnyddio'r dull priodol (adlynion, styffylau, gosodiadau)
- gosod ffitiadau cysylltiedig (crafangau, trimiau)
- gwirio gwaith gorffenedig am gywirdeb, ansawdd a chydymffurfiaeth â manylebau.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau ar y safle gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol yn ddiogel ac yn effeithiol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau'r gweithle.

Offer a chyfarpar:

- offer mesur (tapiau mesur, prennau mesur)
- offer torri (cyllyll, gwelleifiau)
- offer gosod (morthwylion, morthwylion styffylu)
- offer marcio (llinellau sialc, pensiliau)
- offer pŵer (styffylwyr trydan)
- cyfarpar ategol (tryweli, rholeri).

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio PPE/RPE yn gywir), RAMS a rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

# Uned 352: Gosod gorchuddion lloriau tecstilau

| GLH: | 90 |
| --- | --- |

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae’r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae’n ymdrin â’r sgiliau, yr wybodaeth a’r ddealltwriaeth sy’n ofynnol ar gyfer gosod gorchuddion lloriau teils a dalennau tecstilau mewn amgylcheddau contract a domestig.

Ar ôl cwblhau’r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i’r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw gorchudd llawr tecstilau?
- Sut mae gosod gorchudd llawr tecstilau?
- Ble mae gorchuddion lloriau tecstilau yn cael eu defnyddio?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

### Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

### Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn y broses o osod gwahanol fathau o orchuddion lloriau tecstilau:

- teils carped
- tecstilau gwe lydan (peil troellog, peil dolennog, peil toriad, peil cedenog)
- matiau atal.

Mae offer a chyfarpar yn cynnwys y canlynol:

- estynnwr carpedi/estynnwr i'w ddefnyddio â'r pen-glin/estynnwr pŵer
- tâp mesur/mesurydd laser
- cyllell dwcio a bolster
- styffylwr trydan
- cyllell drimio (llafnau bachyn, llafnau syth, llafnau ceugrwm)
- torwyr crafangau
- morthwyl
- Teclyn carpedu a thwcio yn gyflym
- haearn semio (gwres, ton radio)

- pwysau semio
- torrwr peil
- torrwr sêm
- teclyn darganfod rhesi
- gwellaif cedenu
- rholer carpedi pigog
- mynawyd carpedi
- gleider carpedi
- trywel adlyn bylchog
- sugnydd llwch.

Bydd deunyddiau a chydrannau'n cynnwys:

- adlynion (bond cryf)
- tâp semio gwres
- seliwr sêm
- deunyddiau glanhau
- trothwyon a thrimiau llawr.

Bydd dysgwyr yn deall nodweddion deunyddiau gorchuddion lloriau tecstilau (cadernid, hyblygrwydd, sefydlogrwydd, cysur, ansawdd acwstig, amrywiaeth o ran lliw a dyluniad, gwrthiant dŵr, pa mor hawdd yw eu cynnal a'u cadw) a pha mor addas ydynt i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor addas yw adnoddau i osod gorchuddion lloriau tecstilau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r diffygion nodweddiadol sy'n gallu effeithio ar adnoddau, cyn, yn ystod ac ar ôl gosod a dulliau cywiro.

Diffygion nodweddiadol:

- dulliau gosod anghywir (estyn yn anghywir, defnyddio adlyn anghywir)
- cod swp anghywir
- namau gweithgynhyrchwyr (peil yn mynd i'r cyfeiriad anghywir, dadlamineiddio cefnyn, namau ar linellau, twffau coll, marciau polyn).

Dulliau cywiro:

- dilyn cyfarwyddiadau'r cynhyrchwr
- sicrhau tensiwn manwl gywir wrth estyn deunyddiau
- defnyddio adlyn cywir
- gwirio codau swp
- cysylltu â'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn deall defnyddiau a chyfyngiadau adnoddau, gan gynnwys dewis y math mwyaf priodol o orchudd llawr mewn mannau sy'n dueddol o fod â llawer o gerddwyr (gan gynnwys grisiau, coridorau, adeiladau masnachol a chyhoeddus).

Bydd dysgwyr yn deall yr angen i leihau gwastraff, gan ddefnyddio torion (cypyrddau, grisiau, uniadau).

Bydd dysgwyr yn gwybod am gynaliadwyedd ac opsiynau ailgylchu deunyddiau lloriau tecstilau fel ailgylchu, ailosod a chynlluniau dychwelyd.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod am waith paratoi anaddas ar gyfer isloriau cyn gosod gorchuddion lloriau tecstilau.

Bydd dysgwyr yn deall pryd i ddefnyddio gwahanol adnoddau a pha mor addas ydynt o ran gosod gwahanol fathau o orchuddion lloriau tecstilau yn 1.1.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a danfoniadau anghywir neu anghyflawn.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau'r sefydliad a ddefnyddir i ddewis adnoddau a sut mae defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau:
- taflenni/cardiau gwaith
- amserlenni
- manylebau
- lluniadau (cynlluniau llawr)
- biliau priodweddau
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo niferoedd gan gynnwys metrau llinol, metrau sgwâr a chanrannau gwastraff wrth osod gorchuddion lloriau tecstilau.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gosod gorchuddion lloriau tecstilau a'r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:
- anafiadau cyhyrysgerbydol
- dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol
- toriadau a chrafiadau
- llosgiadau
- trydanu
- technegau codi a chario
- taflenni data COSHH
- dewis a defnyddio offer yn ddiogel.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn RAMS i wneud y gwaith yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio PPE/RPE (padiau pen-glin, menig, masgiau, trowsus gwaith) a gorchuddion gwarchodol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gwiriadau ymlaen llaw gofynnol cyn gosod gorchuddion lloriau tecstilau.

Bydd dysgwyr yn deall goblygiadau cyfrifo mannau cychwyn lloriau tecstilau (maint y toriadau, mannau cychwyn a gorffen, safleoedd semau) a'r pethau y mae gofyn eu hystyried wrth wneud hynny.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo faint o ddeunyddiau sydd eu hangen i baratoi a gosod gorchuddion lloriau tecstilau.

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau ar gyfer gosod gorffeniadau a gorchuddion lloriau ar ddyluniadau lloriau, gan gynnwys:

- trothwyon, sgyrtins, ymylon blaen grisiau, rhodenni, trimiau a phroffiliau
- arwynebau llorweddol, goleddfol, grisiog (grisiau syth, troeon barcut, trwynbwl) ac ardaloedd ffurfiedig neu gilfwaog
- deunyddiau patrymog a heb batrwm (alinio a phatrymau disgyn).

Bydd dysgwyr yn deall y gwahanol ddulliau uno a phwysigrwydd cywirdeb, gan gynnwys creu uniadau cyson ac osgoi semau mewn ardaloedd prysur.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ystyried cyfeiriad y peil wrth osod gorchuddion lloriau tecstilau dalennau a theils.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth osod gorchuddion lloriau tecstilau.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw offer pŵer llaw a chludadwy a chyfarpar i'w defnyddio yn y dyfodol.

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer i gynnwys:

- gwiriadau ymlaen llaw (gweledol, profion PAT)
- gwirio cywirdeb (ffisegol)
- glanhau
- storio.

Offer/cyfarpar i gynnwys:

- estynnwr carpedi/estynnwr i'w ddefnyddio â'r pen-glin/estynnwr pŵer
- tâp mesur/mesurydd laser
- cyllell dwcio a bolster
- styffylwr trydan
- cyllell drimio (llafnau bachyn, llafnau syth, llafnau ceugrwm)
- torwyr crafangau
- morthwyl
- teclyn carpedu a thwcio yn gyflym
- haearn semio (gwres, ton radio)
- pwysau semio
- torrwr peil
- torrwr sêm
- teclyn darganfod rhesi
- gwellaif cedenu
- rholer carpedi pigog

- mynawyd carpedi
- gleider carpedi
- trywel adlyn bylchog
- sugnydd llwch.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i wneud y canlynol:

- mesur
- marcio allan
- torri
- uno
- ymestyn
- cyfateb
- rhoi’n sownd

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer, a chyfarpar ategol

**3.3** Gosod gorchuddion lloriau dalennau a theils tecstilau, mewn sefyllfaoedd domestig neu dan gontract, yn unol â’r cyfarwyddiadau gweithio ar yr arwynebau a’r ardaloedd canlynol:

- llorweddol
- goleddfol
- grisiog
- ffurfiedig a chilfwaog

**3.4** Gosod gorchuddion lloriau dalennau a theils tecstilau, mewn sefyllfaoedd domestig neu dan gontract, yn unol â’r cyfarwyddiadau gweithio ar y canlynol:

- lloriau solet
- lloriau pren
- lloriau crog
- grisiau

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gosod allan, lleoli, ffitio, uno, ymestyn, cydweddu a rhoi amrywiaeth o orchuddion lloriau dalennau a theils tecstilau yn sownd yn unol â manyleb y dasg a safonau'r diwydiant.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol yn ddiogel a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da i'w defnyddio yn y dyfodol.

**3.3–3.4**
Bydd dysgwyr yn gallu gosod gorchuddion lloriau tecstilau mewn adeiladau dan gontract (masnachol a chyhoeddus) ac anheddau domestig ar wahanol fathau o isloriau (sgrîd tywod a sment), calsiwm sylffad, lloriau pren crog, OSB, pren haenog, lloriau mynediad uchel (islawr metel) i fodloni gofynion manyleb/cyfarwyddiadau'r cwsmer.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod gorchuddion lloriau tecstilau ar loriau, gan gynnwys:

- trothwyon, sgyrtins, proffiliau, ymylon blaen grisiau a thrimiau
- arwynebau llorweddol, goleddfol, grisiog (grisiau syth, troeon barcut, trwynbwl) ac ardaloedd ffurfiedig neu gilfwaog
- deunyddiau patrymog a heb batrwm (alinio a phatrymau disgyn).

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, codi a chario yn ddiogel, addasu a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu diogelu'r ardal gyfagos rhag difrod wrth osod gorchuddion lloriau.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio PPE/RPE yn gywir), RAMS, rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

**3.3 At ddibenion asesu yn unig,** mae dull samplu wedi cael ei ddefnyddio yn y prosiect ymarferol lle bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar osod gorchuddion lloriau dalennau **neu** deils tecstilau, mewn sefyllfaoedd dan gontract neu ddomestig, yn unol â chyfarwyddiadau gweithio ar gyfer **dau** o'r arwynebau a'r ardaloedd canlynol:

- llorweddol
- goleddfol
- grisiog
- ffurfiedig a chilfwaog.

# Uned 353: Gosod gorchuddion lloriau gwydn

| GLH: | 90 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymdrin â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer gosod gorchuddion lloriau gwydn, fel mathau teils a dalennau mewn amgylcheddau dan gontract a domestig.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth sy'n gwneud gorchudd llawr yn wydn?
- Beth yw mantais gorchudd llawr gwydn?
- Pam mae angen i mi baratoi'r arwyneb cyn gosod gorchudd llawr gwydn?
- Pa offer a chyfarpar fydd eu hangen arnaf i osod gorchuddion lloriau gwydn?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gosod lloriau gwydn mewn ysgol a thŷ?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio’r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau’r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau’r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

#### Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod**: cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau sy’n cael eu defnyddio yn y broses o osod gwahanol fathau o orchuddion lloriau gwydn:
- finyl dalennog gan gynnwys linoliwm, polywrethan (PU), lloriau diogelwch, lloriau gwrth-lithro
- teils gan gynnwys finyl, teils finyl moethus (LVTs), lloriau rwber, rwber stydiau.

Mae offer a chyfarpar yn cynnwys y canlynol:
- cyllell drimio (llafnau bachyn, llafnau syth, llafnau ceugrwm)
- ymylon syth ac ysgrifelli
- tâp mesur a llinell sialc
- rholer llawr, rholer leino trwm (55kg)
- rholer sêm, rholer llaw
- trywel adlyn bylchog
- gwn aer poeth
- weldiwr aer poeth (rhoden weldio)
- medrydd cyfuchlinol.

Bydd deunyddiau a chydrannau'n cynnwys:

- adlynion (sensitif i bwysau, set wlyb, sensitif i dymheredd)
- weldiad oer
- deunyddiau glanhau
- trothwyon a thrimiau llawr.

Bydd dysgwyr yn deall nodweddion deunyddiau gorchuddion lloriau gwydn (cadernid, hyblygrwydd, sefydlogrwydd, gwrthiant dŵr, gwrthiant llithro, pa mor hawdd yw eu cynnal a'u cadw) a pha mor addas ydynt i'w defnyddio.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor addas yw adnoddau i osod gorchuddion lloriau gwydn.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r diffygion nodweddiadol sy'n gallu effeithio ar adnoddau, cyn, yn ystod ac ar ôl gosod a dulliau cywiro.

Diffygion nodweddiadol:

- dulliau gosod anghywir
- swigod neu bothelli
- uniadau'n agor
- uniadau'n codi a hollti
- bondin
- plicio neu ddadlaminadu
- codi teils
- graddliwio
- deunydd yn dangos drwodd.

Dulliau cywiro:

- codi'r ardal yr effeithir arni'n ofalus ac ail-roi adlyn
- rholio'r ardal yn drylwyr i gael gwared ag aer sydd wedi'i ddal
- dilyn yr amseroedd sychu a argymhellir
- codi gorchuddion lloriau a chymryd camau adfer ar islawr
- ailuno uniadau.

Bydd dysgwyr yn deall defnyddiau a chyfyngiadau adnoddau a'r angen i leihau gwastraff, gan gynnwys dewis y math mwyaf priodol o orchudd llawr mewn ardaloedd lle mae llawer o leithder ac ardaloedd sy'n dueddol o gael llawer o gerddwyr (gan gynnwys grisiau, coridorau, ystafelloedd gwlyb, adeiladau masnachol a chyhoeddus).

Bydd dysgwyr yn gwybod am gynaliadwyedd ac opsiynau ailgylchu deunyddiau lloriau gwydn cynlluniau dychwelyd finyl.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, y dylid rhoi cydrannau diffygiol mewn cwarantîn, rhoi gwybod amdanynt i'r goruchwyliwr a'u dychwelyd i'w tarddle i'w harchwilio ymhellach neu i'w hailgylchu.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod am waith paratoi anaddas ar gyfer isloriau cyn gosod gorchuddion lloriau gwydn.

Bydd dysgwyr yn deall pryd i ddefnyddio gwahanol adnoddau a pha mor addas ydynt o ran gosod gwahanol fathau o orchuddion lloriau gwydn yn 1.1.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a danfoniadau anghywir neu anghyflawn.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau'r sefydliad a ddefnyddir i ddewis adnoddau a sut mae defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau:

- taflenni/cardiau gwaith
- amserlenni
- manylebau
- lluniadau (cynlluniau llawr)
- biliau priodweddau
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo niferoedd adnoddau gan gynnwys metrau llinol, metrau sgwâr a chanrannau gwastraff wrth osod gorchuddion lloriau gwydn.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gosod gorchuddion lloriau gwydn a'r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:

- anafiadau cyhyrysgerbydol
- dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol
- toriadau a chrafiadau
- technegau codi a chario
- taflenni data COSHH
- dewis a defnyddio offer yn ddiogel.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn RAMS i wneud y gwaith yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio PPE/RPE (padiau pen-glin, menig, masgiau, trowsus gwaith).

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gwiriadau ymlaen llaw gofynnol cyn gosod gorchuddion lloriau gwydn.

Bydd dysgwyr yn deall goblygiadau cyfrifo mannau cychwyn lloriau gwydn (maint y toriadau, mannau cychwyn a gorffen, safleoedd semau) a'r pethau y mae gofyn eu hystyried wrth wneud hynny.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo faint o ddeunyddiau sydd eu hangen i baratoi a gosod gorchuddion lloriau gwydn.

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau ar gyfer gosod gorffeniadau a gorchuddion lloriau ar ddyluniadau lloriau, gan gynnwys:

- trothwyon, sgyrtins, ymylon blaen grisiau, trimiau a phroffiliau
- arwynebau llorweddol, goleddfol, grisiog (grisiau syth, troeon barcut, trwynbwl) ac ardaloedd ffurfiedig neu gilfwaog
- deunyddiau patrymog a heb batrwm (alinio a phatrymau disgyn).

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth osod gorchuddion lloriau gwydn.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw offer pŵer llaw a chludadwy a chyfarpar i'w defnyddio yn y dyfodol.

Offer a chyfarpar i gynnwys:

- cyllell drimio (llafnau bachyn, llafnau syth, llafnau ceugrwm)
- ymylon syth ac ysgrifelli
- tâp mesur a llinell sialc
- rholer llawr, rholer leino trwm (55kg)
- rholer sêm, rholer llaw
- trywel adlyn bylchog
- gwn aer poeth
- weldiwr aer poeth (rhoden weldio)
- medrydd cyfuchlinol.

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol i gynnwys:

- gwiriadau ymlaen llaw (gweledol, profion PAT)
- gwirio cywirdeb (ffisegol)
- glanhau
- storio.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio allan, lleoli, ffitio, uno, rholio, weldio neu selio

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer, a chyfarpar ategol

**3.3** Gosod gorchuddion lloriau dalennau a theils gwydn, mewn sefyllfaoedd domestig neu dan gontract, yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio ar yr arwynebau a'r ardaloedd canlynol:

- llorweddol
- goleddfol
- grisiog

- sgyrtins

**3.4** Gosod gorchuddion lloriau dalennau a theils gwydn, mewn sefyllfaoedd domestig neu dan gontract, yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio ar y lloriau canlynol:

- lloriau solet:
  - concrit
  - sgrîd
- lloriau pren

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gosod allan, lleoli, ffitio, uno, rholio, weldio neu selio amrywiaeth o orchuddion lloriau dalennau a theils gwydn yn unol â manyleb y dasg a safonau'r diwydiant.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol yn ddiogel a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da i'w defnyddio yn y dyfodol.

**3.3–3.4**

Bydd dysgwyr yn gallu gosod gorchuddion lloriau gwydn mewn adeiladau dan gontract (masnachol a chyhoeddus) ac anheddau domestig ar wahanol fathau o isloriau (sgrîd tywod a sment), calsiwm sylffad, lloriau pren crog, OSB, pren haenog, lloriau mynediad uchel (islawr metel) i fodloni gofynion manyleb/cyfarwyddiadau'r cwsmer.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod gorchuddion lloriau ar loriau, gan gynnwys:

- trothwyon, sgyrtins, proffiliau, ymylon blaen grisiau a thrimiau
- arwynebau llorweddol, goleddfol, grisiog (grisiau syth, troeon barcut, trwynbwl) ac ardaloedd ffurfiedig neu gilfwaog
- deunyddiau patrymog a heb batrwm (alinio a phatrymau disgyn).

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, codi a chario yn ddiogel, addasu a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu diogelu'r ardal gyfagos rhag difrod wrth osod gorchuddion lloriau.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio PPE/RPE yn gywir), RAMS, rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

**3.3 At ddibenion asesu yn unig,** mae dull samplu wedi cael ei ddefnyddio yn y prosiect ymarferol lle bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar osod gorchuddion lloriau dalennau

neu deils gwydn, mewn sefyllfaoedd dan gontract neu ddomestig, yn unol â chyfarwyddiadau gweithio ar gyfer **dau** o'r arwynebau a'r ardaloedd canlynol:

- llorweddol
- goleddfol
- grisiog
- sgyrtins.

# Uned 354: Uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau

| | |
|---|---|
| **GLH:** | 35 |

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymdrin â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw uniad?
- Beth sydd ei angen arnaf i atgyweirio carped sydd wedi rhwygo?
- Pa ddulliau gwahanol sydd ar gael i ffurfio uniadau?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

## Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

## Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau ac yn deall nodweddion deunyddiau a'u haddasrwydd wrth eu defnyddio mewn perthynas ag uno ac atgyweirio gwahanol fathau o orchuddion lloriau tecstilau:

- teils carped
- tecstilau gwe lydan (peil troellog, peil dolennog, peil toriad, peil cedenog)
- cefnyn (hesian, sbwng, cefn gweithredol, eilaidd, ffelt, jiwt, wedi'i wehyddu, latecs).

Mae offer a chyfarpar yn cynnwys y canlynol:

- estynnwr carpedi/estynnwr i'w ddefnyddio â'r pen-glin
- cyllell drimio (llafnau bachyn, llafnau syth, llafnau ceugrwm)
- haearn semio (gwres, ton radio)
- pwysau semio
- torrwr peil
- torrwr sêm
- teclyn darganfod rhesi

- gwellaif cedenu
- rholer carpedi pigog
- mynawyd carpedi
- gleider carpedi
- trywel adlyn bylchog
- sugnydd llwch.

Bydd deunyddiau a chydrannau'n cynnwys:

- adlynion (bond cryf)
- tâp semio gwres
- seliwr sêm.

Bydd dysgwyr yn deall nodweddion deunyddiau gorchuddion lloriau tecstilau (cefnyn, cyfeiriad y peil, ansawdd y peil, oedran) ac yn gwybod pa mor addas yw adnoddau i uno ac atgyweirio gwahanol orchuddion lloriau tecstilau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y diffygion nodweddiadol sy'n gallu effeithio ar adnoddau, gan gynnwys traul a llafnau pŵl.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall pryd i ddefnyddio gwahanol adnoddau a pha mor addas ydynt o ran uno neu atgyweirio gwahanol fathau o orchuddion lloriau tecstilau yn 1.1.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, gan gynnwys deunyddiau diffygiol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall yr wybodaeth sydd ei hangen i ddewis adnoddau i atgyweirio ac uno gwahanol ddeunyddiau gorchuddion lloriau tecstilau (cefnyn, cyfeiriad y peil, ansawdd y peil, oedran).

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig ag uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau a'r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:

- anafiadau cyhyrysgerbydol
- dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol
- toriadau a chrafiadau
- llosgiadau
- trydanu
- technegau codi a chario
- taflenni data COSHH
- dewis a defnyddio offer yn ddiogel.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn RAMS i wneud y gwaith yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio PPE/RPE (padiau pen-glin, menig, masgiau, trowsus gwaith) a gorchuddion gwarchodol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y diffygion nodweddiadol wrth atgyweirio ac uno gorchuddion lloriau tecstilau ac ystyriaethau gan gynnwys cyfeiriad y peil, cyfateb patrymau, patrymau disgyn.

Bydd dysgwyr yn gwybod am wahanol ddulliau torri ac uno i atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau gan gynnwys semio a bondio a sut mae gorffen uniadau i'r safonau gofynnol.

Bydd dysgwyr yn deall y goblygiadau a'r ystyriaethau sy'n ofynnol wrth atgyweirio lloriau tecstilau gan gynnwys faint o bobl sy'n defnyddio'r ardal, a yw'r arwyneb yn llorweddol, yn oleddfol, yn risiog (grisiau syth, troeon barcut, trwynbwl), maint y gwaith atgyweirio a safleoedd y semau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw offer pŵer llaw a chludadwy a chyfarpar i'w defnyddio yn y dyfodol.

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer i gynnwys:

- gwiriadau ymlaen llaw (gweledol, profion PAT)
- gwirio cywirdeb (ffisegol)
- glanhau
- storio.

Offer/cyfarpar i gynnwys:

- estynnwr carpedi/estynnwr i'w ddefnyddio â'r pen-glin
- cyllell drimio (llafnau bachyn, llafnau syth, llafnau ceugrwm)
- haearn semio (gwres, ton radio)
- pwysau semio
- torrwr peil
- torrwr sêm
- teclyn darganfod rhesi
- gwellaif cedenu
- rholer carpedi pigog
- mynawyd carpedi
- gleider carpedi
- trywel adlyn bylchog
- sugnydd llwch.

## Deilliant dysgu

**3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol**

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i wneud y canlynol:

- mesur
- marcio allan
- torri
- cyfateb
- uno
- semio
- ffitio
- rhoi'n sownd
- gorffen

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer, a chyfarpar ategol

**3.3** Uno ac atgyweirio gorchuddion lloriau tecstilau yn unol â chyfarwyddiadau gweithio

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1–3.3**

Bydd dysgwyr yn gallu atgyweirio ac uno gorchuddion lloriau tecstilau ar arwynebau llorweddol, goleddfol, grisiog (grisiau syth, troeon barcut, trwynbwl).

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol yn ddiogel a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da i'w defnyddio yn y dyfodol.

Bydd dysgwyr yn gallu diogelu'r ardal gyfagos rhag difrod wrth atgyweirio ac uno gorchuddion lloriau.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio PPE/RPE yn gywir), RAMS, rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

# Uned 355: Gosod gorchuddion lloriau pren

| GLH: | 90 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymdrin â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i osod allan a gosod gorchuddion lloriau pren mewn adeilad dan gontract neu amgylchedd domestig.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw gorchuddion lloriau pren?
- Sut mae gwahanol orchuddion lloriau pren yn cael eu gosod?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng defnyddio pren solet a gorchudd llawr laminiad?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

## Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer dewis adnoddau
**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

## Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn y broses o osod gwahanol fathau o orchuddion lloriau pren (bloc pren, pren solet, pren wedi'i saernïo a laminiad).

Adnoddau:
- haenau gwaelodol
- uniadau ehangu
- adlynion (gan gynnwys rhai sy'n cynnwys tar)
- triniaethau arwyneb
- gorffeniadau a thrimiau
- trothwyon
- sgyrtins/gleinwaith sgotia
- stripiau gorchuddio
- deunyddiau ategol (deunyddiau selio, pecyn atgyweirio llenwadau lliw)
- deunyddiau diogelu

- gosodiadau cysylltiedig (hoelion cudd), ffitiadau a chydrannau
- offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol.

Bydd dysgwyr yn deall nodweddion deunyddiau (cadernid, hyblygrwydd a sefydlogrwydd) a pha mor addas ydynt i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor addas yw adnoddau i osod lloriau blociau pren ar gefndiroedd solet, mandyllog a phren.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth sy'n achosi diffygion nodweddiadol sy'n gallu effeithio ar adnoddau, cyn, yn ystod ac ar ôl gosod a dulliau cywiro.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth sy'n achosi diffygion nodweddiadol sy'n gallu effeithio ar adnoddau, cyn, yn ystod ac ar ôl gosod a dulliau cywiro.

Diffygion nodweddiadol:

- gormodedd o leithder yn yr islawr
- is-sylfaen anwastad
- (deunydd inswleiddio) cynnyrch gorffenedig yn plygu
- trosglwyddo sain
- aflunio o ganlyniad i wres dan y llawr
- difrod i'r arwyneb (llwch, cracio, gwahanu, colli cryfder)
- deunyddiau ac ategolion o ansawdd gwael
- gwaith o ansawdd gwael (gwaith paratoi a bondio annigonol, safle atgyfnerthiadau yn anghywir, pilenni a chydrannau)
- gorffeniadau esthetig gwael.

Dulliau cywiro:

- ymaddasiad deunydd
- bylchau ehangu
- gosod rhwystrau lleithder (pilenni DPC)
- haen waelodol, byrddau cefn
- cyfansoddion llyfnhau
- gosod allan yn gywir
- gorchuddion diogelu dros dro (gorchuddion llwch, deunyddiau dalen, rhwystrau ffisegol).

Bydd dysgwyr yn deall defnyddiau a chyfyngiadau adnoddau a dewisiadau amgen cynaliadwy (corcyn, bambŵ, pren wedi'i adfer). Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis y math mwyaf priodol o orchudd llawr ar gyfer gosod systemau gwresogi dan y llawr, mewn ardaloedd lle mae llawer o leithder ac mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl yn dueddol o gerdded.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall pryd i ddefnyddio gwahanol adnoddau a pha mor addas ydynt o ran gosod gwahanol fathau o orchuddion lloriau pren yn 1.1.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau a ddewiswyd, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a danfoniadau anghywir neu anghyflawn.

Bydd dysgwyr yn gwybod am strwythurau hierarchaeth ar gyfer rhoi gwybod am broblemau, gan gynnwys rheolwr llinell, rheolwr safle, prif gontractwr ac is-gontractwyr, cwsmer.

**1.3** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau'r sefydliad a ddefnyddir i ddewis adnoddau a sut mae defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau:

- taflenni/cardiau gwaith
- amserlenni
- manylebau
- lluniadau (cynlluniau llawr)
- biliau priodweddau
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o gyfrifo niferoedd gan gynnwys metrau llinol, metrau sgwâr a chanrannau gwastraff wrth osod gorchuddion lloriau pren.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gosod gorchuddion lloriau pren a'r mesurau rheoli cysylltiedig, gan gynnwys:

- anafiadau cyhyrysgerbydol
- dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol
- toriadau a chrafiadau
- mewnanadlu llwch
- technegau codi a chario
- taflenni data COSHH
- dewis a defnyddio offer yn ddiogel.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn RAMS i wneud y gwaith yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio PPE/RPE (padiau pen-glin, menig, masgiau, trowsus gwaith), LEV a gorchuddion gwarchodol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gwiriadau ymlaen llaw gofynnol (gweledol, cyffyrddol, gwirio cadernid) ar gyfer paratoi'r cefndir ar gyfer cynhyrchu arwynebau gwastad, lefel ac anhyblyg.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod gorchuddion lloriau pren allan ar wahanol arwynebau gan ddefnyddio cyfarpar mesur a lefelu priodol.

Bydd dysgwyr yn deall y goblygiadau a'r ystyriaethau sydd eu hangen wrth gyfrifo pwyntiau datwm, uniadau peniad syth, uniadau wedi'u gwasgaru'n gyson, gosod allan borderi a phatrymau, gosod allan sgwâr gan ddefnyddio 3:4:5. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw safle a maint y toriadau, y mannau cychwyn a gorffen.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r dulliau ar gyfer gosod gorchuddion lloriau pren ar ddyluniadau lloriau, gan gynnwys: torri o amgylch ciliau, colofnau, agoriadau, ffurfio tyllau ar gyfer gwasanaethau a socedi, rhicio ar waliau anwastad. Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw cynnwys bylchau ehangu amderfynau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae trosglwyddo dimensiynau i dorri gorchuddion lloriau syth, crwn ac onglog a gosod proffiliau, trimiau ac uniadau ehangu perchnogol.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblemau wrth osod gorchuddion lloriau pren.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw offer pŵer llaw a chludadwy a chyfarpar i'w defnyddio yn y dyfodol.

Dulliau o gynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer i gynnwys:

- gwiriadau ymlaen llaw (gweledol, profion PAT)
- gwirio cywirdeb (ffisegol)
- hogi
- glanhau
- storio.

Offer/cyfarpar i gynnwys:

- llawlif, llif fwa fach, llif dorri, herclif
- morthwyl
- morthwyl pren
- cynion (chisels)
- plaenau llaw
- blociau ysgrifellu
- medrydd cyfuchlinol
- sgwarynnau cyfunol
- befel cymwysadwy
- canfyddwr onglau
- hoeliwr gorffen, hoeliwr cudd
- cyfarpar mesur
- gorsafoedd torri
- LEV
- llinellau llinyn / sialc
- clampiau
- trywel adlyn
- bwcedi a thrywel mesur.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio allan, torri, lleoli, gosod, gorffen

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer, a chyfarpar ategol

**3.3** Gosod a gorffen o leiaf **dau** o'r gorchuddion lloriau canlynol, mewn sefyllfaoedd domestig neu dan gontract, yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio:

- bloc pren
- pren solet
- pren wedi'i saernïo
- laminiad

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gosod allan a gosod amrywiaeth o orchuddion lloriau pren yn unol â'r fanyleb, gan gynnwys uniadau peniad syth, uniadau wedi'u gwasgaru'n gyson, borderi a phatrymau saethbennu.

Bydd dysgwyr yn gallu cyflawni gwiriadau ymlaen llaw i baratoi ar gyfer cynhyrchu arwynebau gwastad, lefel ac anhyblyg. Bydd dysgwyr yn gallu dewis adnoddau addas i osod lloriau blociau pren ar gefndiroedd solet, mandyllog a phren.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod lloriau allan ar wahanol arwynebau lloriau gan ddefnyddio cyfarpar mesur a lefelu priodol.

Bydd dysgwyr yn gallu gwneud gwaith atgyweirio a chywiro i gefndiroedd diffygiol a rhai sydd wedi methu'n sylweddol gan gynnwys: llwch, cracio, gwahanu, colli cryfder, deunyddiau ac ategolion o ansawdd gwael, paratoi a bondio annigonol, ac atgyfnerthiadau, pilenni a chydrannau wedi'u lleoli'n anghywir.

Bydd dysgwyr yn gallu ffitio a gosod gorchuddion lloriau ar ddyluniadau lloriau, gan gynnwys: torri o amgylch ciliau, colofnau, agoriadau, ffurfio tyllau ar gyfer gwasanaethau a socedi, ysgrifellu ar waliau anwastad.

Bydd y dysgwyr yn gallu torri gorchuddion lloriau yn syth, yn grwn ac yn onglog.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod proffiliau perchnogol (trimiau) ac uniadau ehangu.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio technegau codi a chario cywir a dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol yn ddiogel a'u cynnal a chadw mewn cyflwr da i'w defnyddio yn y dyfodol.

Offer/cyfarpar i gynnwys:

- llawlif, llif fwa fach, llif dorri, herclif
- morthwyl
- morthwyl pren

- cynion (chisels)
- plaenau llaw
- blociau ysgrifellu
- medrydd cyfuchlinol
- sgwarynnau cyfunol
- befel cymwysadwy
- canfyddwr onglau
- hoeliwr gorffen, hoeliwr cudd
- cyfarpar mesur
- gorsafoedd torri
- LEV
- llinellau llinyn / sialc
- clampiau
- trywel adlyn
- bwcedi a thrywel mesur.

**3.3** Bydd dysgwyr yn gallu gosod gorchuddion lloriau pren mewn adeilad dan gontract (masnachol a chyhoeddus) neu annedd ddomestig, er mwyn bodloni gofynion manyleb/cyfarwyddiadau'r cwsmer.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, codi a chario yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu diogelu'r ardal gyfagos rhag difrod wrth gymysgu adlynion a gosod gorchuddion lloriau.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch (gan gynnwys defnyddio PPE/RPE yn gywir), RAMS, rheolau'r safle a chynnal ardal waith ddiogel a thaclus.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff peryglus a heb fod yn beryglus yn unol â'r canllawiau amgylcheddol perthnasol.

# Cysylltu â ni

## City & Guilds

E-bost: skillsforwales.customer@cityandguilds.com

## EAL

E-bost: skillsforwales.customer@eal.org.uk
Ffôn: 01924 930800
Llinellau ar agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 08.00 i 18.00 GMT

## City & Guilds | EAL

Mae City & Guilds ac EAL yn ddau gorff dyfarnu sydd wedi dod ynghyd i gydweithio ar ddatblygu cyfres o gymwysterau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu i Gymru.

Mae gennym bron 150 mlynedd o brofiad o ddatblygu cymwysterau ac asesiadau yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae City & Guilds ac EAL wedi rhannu perthynas wych erioed, felly mae hon wir yn bartneriaeth â hanes o lwyddo sy'n canolbwyntio'n llwyr ar helpu'r sector i wireddu potensial y sector yn y dyfodol.

Rydyn ni'n credu'n gryf mewn grymuso pobl gyda chyfleoedd ar gyfer y dyfodol, a'n nodau ar gyfer y gyfres newydd hon o gymwysterau yw helpu pobl i gael gwaith, i gamu ymlaen yn y gwaith ac i fynd ymhellach.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir wrth fynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds/EAL yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, a chedwir yr hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd.
Ni all City & Guilds/EAL dderbyn atebolrwydd am golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

©2026 City & Guilds Limited (Rhif Cofrestru 16513878). Cedwir pob hawl. Mae City & Guilds yn nod masnach City & Guilds Limited.

EAL (Excellence, Achievement and Learning Limited)
Rhif Cofrestru yng Nghymru a Lloegr 02700780
Swyddfa gofrestredig: EAL, Lytchett House, 13 Freeland Park, Wareham Road, Poole,
Dorset, BH16 6FA

**skillsforwales.wales**

©2026 City & Guilds Limited (Rhif Cofrestru 16513878)
Cedwir pob hawl. Mae City & Guilds yn nod masnach City & Guilds Limited.

EAL (Excellence, Achievement and Learning Limited)
Rhif Cofrestru yng Nghymru a Lloegr 02700780